WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllunio i Ryddhau Cleifion – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 167A2017-18

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi’r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - infoofficer@wao.gov.uk..

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gabrielle Smith a Matthew Brushett.

# Cynnwys

Mae mesurau perfformiad allweddol wedi gwella rhywfaint, ond bydd hi'n cymryd cryn amser i weld effaith lawn y mentrau gwella cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion.

Adroddiad cryno

Y Cefndir 4

Y Prif Ganfyddiadau 6

Argymhellion 7

Adroddiad manwl

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir i wella cynllunio i ryddhau cleifion, wedi'u cefnogi gan lwybrau rhyddhau, polisïau a mentrau gwella 9

Mae adnoddau pwrpasol ar gael i gefnogi cynllunio i ryddhau cleifion ac mae staff ward yn hyderus ynghylch yr hyn sydd angen ei gyflawni, ond mae'r hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion yn anfynych, ac ymddengys nad yw lolfeydd rhyddhau yn cael eu defnyddio'n ddigonol 22

Ceir trefniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, sy'n sicrhau bod aelodau bwrdd yn teimlo'n hyddysg, ond mae'r gwelliannau o ran perfformiad yn rhy araf 35

Atodiadau

Atodiad 1: Canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau yn ysbytai acíwt y Bwrdd Iechyd. 45

Atodiad 2: methodoleg archwilio 49

Atodiad 3: Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion 51

Atodiad 4: Gweithgareddau a gyflawnir gan dimau cyswllt rhyddhau cleifion ledled Cymru 60

# Adroddiad cryno

## Y Cefndir

1 Proses barhaus i ganfod y gwasanaethau a'r gefnogaeth y gallai unigolyn fod eu hangen wrth adael yr ysbyty (neu wrth symud rhwng ysbytai) yw cynllunio i ryddhau. Y nod yw sicrhau bod y gofal cywir ar gael, yn y man cywir, ac ar yr amser cywir. Mae proses ryddhau effeithiol ac effeithlon yn ffactor pwysig mewn llif cleifion da ac yn allweddol i sicrhau gofal cleifion da a defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r GIG. Llif cleifion yw'r llif o gleifion rhwng staff, adrannau a sefydliadau eraill ar hyd llwybr gofal, o fod wedi cyrraedd yr ysbyty hyd at ryddhau neu drosglwyddo.

2 Mae gwelyau mewn ysbytai o dan bwysau cynyddol, yn enwedig gan fod 1,800 o welyau wedi cael eu colli ar draws Cymru dros y chwe blynedd diwethaf. Gall cynllunio gwael wrth ryddhau cleifion olygu arosiadau hwy diangen, sydd yn eu tro yn amharu ar rannau eraill o'r ysbyty, gan greu amseroedd aros hirach mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu olygu bod yn rhaid canslo derbyniadau cynlluniedig.

3 Bob blwyddyn,ledled Cymru bydd cleifion yn cael eu derbyn a'u rhyddhau o'r ysbyty tua 750,000 o weithiau. Mae'r broses ryddhau yn gymharol syml i 80% o'r cleifion sy'n gadael yr ysbyty. Bydd y cleifion hyn yn dychwelyd adref gyda mân anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol, os o gwbl, heb fod angen cynlluniau a darpariaeth gymhleth. I'r 20% sy'n weddill, mae cynllunio i ryddhau yn broses fwy cymhleth oherwydd anghenon iechyd ac/neu ofal cymdeithasol parhaus, a allai fod yn anghenion tymor byr neu dymor hir.

4 Yn achos cleifion unigol, y mae llawer ohonynt yn 65 oed neu'n hŷn, gall oedi wrth ryddhau o'r ysbyty arwain at ganlyniadau salach yn sgil colli annibyniaeth, hyder a'r gallu i symud, yn ogystal â risg o gael heintiau yn yr ysbyty, o ail-dderbyn i'r ysbyty neu'r angen am gymorth hirdymor.

5 Er gwaethaf y llu o ganllawiau i gefnogi cynlluniau rhyddhau da,[1] [2] [3] dangosai gwaith a gyflawnwyd yn 2016 gan Uned Gyflawni (yr Uned Gyflawni) GIG Cymru yn holl ysbytai Cymru fod cyfleoedd i wella'r broses cynllunio i ryddhau cleifion, i ryddhau capasiti sylweddol i gleifion mewnol ac i wella profiadau a chanlyniadau cleifion. Roedd meysydd penodol i'w gwella yn cynnwys:

- gweithio'n well gyda gwasanaethau cymunedol;
- nodi'n gliriach ac yn gynharach y cymhlethdod yn gysylltiedig â rhyddhau o'r ysbyty, fel bo modd hwyluso'r broses ryddhau;
- mwy o eglurder ynghylch llwybrau rhyddhau[4]; a

[1] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2005), **Hospital Discharge Planning Guidance**, 2005/035 [Saesneg yn unig]

[2]Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (2008), **Passing the Baton**

[3] Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth Glinigol (2015), **Transition between inpatient hospital settings and community or care home settings for adults with social care needs**

[4] Gall llwybrau rhyddhau penodol nodi'r gyfres o gamau y mae angen eu cymryd ac amseriad ymyraethau gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer grwpiau penodol o gleifion, yn enwedig rhai

- gwell gwybodaeth a chyfathrebu â chleifion a'u teuluoedd.

6 Asesodd yr Uned Gyflawni y dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodir yn 'Passing the Baton' (gweler Troednodyn 2). Mae'r canfyddiadau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) yn dangos bod perfformiad yn gysylltiedig â'r broses rhyddhau cleifion yn amrywio ac i raddau helaeth yn wael o'i asesu yn erbyn arferion disgwyliedig. Dangosir y canfyddiadau'n fanylach yn Atodiad 2.

7 Mae llawer o'r materion a amlygwyd gan yr Uned Gyflawni wedi bod yn themâu cyffredin ers blynyddoedd, a phrin yw'r dystiolaeth i awgrymu bod prosesau cynllunio i ryddhau cleifion yn gwella go iawn. Gan fod y galw am wasanaethau ysbyty ar gynnydd a'r capasiti gwelyau yn parhau i ostwng, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol ei bod hi'n bryd adolygu a yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn ddigon cadarn i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflwyno i gynlluniau rhyddhau cleifion.

8 Archwiliai'r adolygiad hwn a oedd gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas â chynllunio i ryddhau. Ceir manylion y fethodoleg archwilio yn Atodiad 2. Yn y gwaith, gofynnwyd yn benodol a oedd y canlynol gan y Bwrdd Iechyd:

- wedi sefydlu fframwaith cynllunio strategol cadarn ar waith er mwyn cynllunio i ryddhau cleifion;
- wedi gwneud trefniadau effeithiol i fonitro ac adrodd ar gynlluniau i ryddhau cleifion; ac
- wedi cymryd camau priodol i reoli cynlluniau rhyddhau cleifion a sicrhau gwelliannau.

9 Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi bod yn cynnal adolygiad o addasiadau tai. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, o ystyried cyfrifoldebau'r naill a'r llall dros reoli a dyrannu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Grantiau Addasiadau Ffisegol a ffrydiau ariannu eraill a ddefnyddir i ariannu addasiadau. Ceir cysylltiadau clir rhwng hyn a chynlluniau rhyddhau cleifion o ystyried y ffaith y gall oedi wrth osod neu ariannu addasiadau tai arwain at oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Yn ogystal â hyn, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn archwilio ansawdd y llif cyfathrebu a gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd yng nghyswllt rhyddhau cleifion. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiadau, sy'n nodi canfyddiadau'r ddau adolygiad hyn, yn nhymor yr hydref 2017.

ag anghenion cymhleth, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau mewn modd diogel ac amserol.

# Y Prif Ganfyddiadau

10 Dyma ein casgliad cyffredinol: Mae mesurau perfformiad allweddol wedi gwella rhywfaint, ond bydd hi'n cymryd cryn amser i weld effaith lawn y mentrau gwella cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion. Nodir ein rhesymau yn y paragraffau a ganlyn.

11 **Cynllunio**: Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir i wella cynllunio i ryddhau cleifion, wedi'u cefnogi gan lwybrau rhyddhau, polisïau a mentrau gwella:

- mae cynlluniau cynhwysfawr ar waith i wella cynllunio i ryddhau cleifion a gefnogir gan ystod o fentrau a buddsoddiadau er mwyn gwella;
- mae lle i atgyfnerthu'r Polisi Rhyddhau a Throsglwyddo Gofal wrth ei ddiweddaru y tro nesaf; ac
- mae llwybrau rhyddhau ffurfiol, wedi'u datblygu ag awdurdodau lleol partner, ac y'u cytunwyd arnynt â'r awdurdodau hynny, yn cael eu rhoi ar waith.

12 **Trefniadau i gefnogi rhyddhau cleifion**: Mae adnoddau pwrpasol ar gael i gefnogi cynllunio i ryddhau cleifion ac mae staff ward yn hyderus ynghylch yr hyn sydd angen ei gyflawni, ond mae'r hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion yn anfynych, ac ymddengys nad yw lolfeydd rhyddhau yn cael eu defnyddio'n ddigonol:

- mae adnoddau amlddisgyblaethol pwrpasol ar waith i gefnogi cynllunio i ryddhau cleifion;
- mae lolfeydd rhyddhau ar gael, ond ymddengys nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol; ac
- mae staff ward yn hyderus ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud i gefnogi proses ryddhau ddiogel ac amserol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o dirlun y gwasanaethau cymunedol. Fodd bynnag, mae'r hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion yn anfynych, ac mae rhai heriau, fel dibyniaeth ar staff asiantaeth, yn peri bod cynllunio i ryddhau cleifion yn fwy anodd.

13 **Monitro ac adrodd**: Ceir trefniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, sy'n sicrhau bod aelodau bwrdd yn teimlo'n hyddysg, ond mae'r gwelliannau o ran perfformiad yn rhy araf:

- ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad mewn modd strategol a gweithredol;
- bydd ystod o wybodaeth yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion yn cael ei chyflwyno'n rheolaidd i'r Bwrdd, ac mae aelodau'r Bwrdd yn teimlo eu bod yn hyddysg yn y maes; ac
- mae perfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion yn gwella'n araf, ond mae mwy o waith i'w wneud er mwyn byrhau arosiadau yn yr ysbyty, a'r amser y bydd yn rhaid aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.

# Argymhellion

Dangosyn 1: argymhellion

Nodir yn y tabl yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad o gynlluniau rhyddhau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd, lle nodir sut y mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn, wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | **Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal:** Mae ein hasesiad o'r polisi yn dangos y gellid ei atgyfnerthu y tro nesaf y bydd hi'n bryd ei adolygu a'i ddiweddaru. Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys:<br>• y daflen rhyddhau cleifion;<br>• y llwybrau rhyddhau cleifion;<br>• rhestr wirio rhyddhau;<br>• cyfeiriadau neu ddolenni gwe i'r polisi Dewis Cartref;<br>• gweithdrefnau uwchgyfeirio arferol;<br>• trefniadau ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau o adrannau damweiniau ac achosion brys/unedau asesu clinigol; a<br>• rolau a chyfrifoldebau staff ward. |
| A2 | **Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal:** Un o'r dangosyddion ar gyfer monitro effaith y polisi yw canran y cleifion a gaiff eu rhyddhau cyn 11am, ond asesir llwyddiant yn erbyn y model llif cleifion SAFER ar sail rhyddhau 33% o gleifion o wardiau cleifion mewnol cyn hanner dydd. Dylai'r Bwrdd Iechyd hefyd gadarnhau a oes angen defnyddio'r un amserlen ar gyfer monitro, neu a oes angen amserlen wahanol, ac os oes angen amserlen wahanol, sicrhau'r gallu i fonitro dau ddangosydd ar wahân. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A3 | **Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion:** Yn ôl y Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal, dylai'r holl staff rheng flaen gael mynediad at hyfforddiant priodol. Fodd bynnag, ni cheir hyfforddiant rheolaidd ar gynllunio i ryddhau cleifion, ac ni chaiff ei gynnwys bob amser mewn rhaglenni ymsefydlu. Mae'r staff asiantaeth hefyd yn anghyfarwydd â'r broses rhyddhau cleifion. Yn y cyfamser, teimlai amryw o'r staff fod angen mwy o hyfforddiant ar y Pecyn Cymorth Penderfyniadau ar gyfer y broses ariannu gofal iechyd parhaus, a fyddai ymhen amser yn sail ar gyfer trefniadau cynllunio i ryddhau cleifion. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• gynnwys cynllunio i ryddhau cleifion yn rhaglenni ymsefydlu'r holl staff fydd yn gwneud trefniadau i ryddhau cleifion;<br>• cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd ar gynllunio i ryddhau cleifion;<br>• archwilio cyfleoedd i gynnwys defnyddio'r Pecyn Cymorth Penderfyniadau mewn hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion; a<br>• darparu canllawiau syml i staff nyrsio banc ac asiantaeth i'w galluogi i gyfrannu'n effeithiol at drefniadau cynllunio i ryddhau cleifion. |
| A4 | **Lolfa ryddhau:** Ymddengys fod lolfeydd rhyddhau yn cefnogi llai o gleifion na'r disgwyl o ystyried eu capasiti cyffredinol a'u horiau gweithredu. Yn y cyfamser, mae rhai cleifion yn gorfod aros dros nos am 12 awr neu fwy mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, nes y bydd gwelyau ar gael. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• ymroi i annog defnydd o'r lofa ryddhau;<br>• sicrhau bod cleifion sy'n cael eu rhyddhau yn cael eu symud i'r lolfa ryddhau cyn gynted ag y bydd yn agor;<br>• canfod yr hyn sy'n atal mwy o gleifion rhag cael eu symud i'r lolfa ar eu diwrnod rhyddhau; a<br>• chasglu gwybodaeth am ba mor hir y bydd cleifion yn disgwyl yn y lolfa ryddhau cyn gadael yr ysbyty, er mwyn asesu a yw trosiant araf yn atal cleifion rhag cael eu symud i'r lolfa ar eu diwrnod rhyddhau. |
| A5 | **Adrodd ar berfformiad:** Yn ddiweddar, lansiodd y Bwrdd Iechyd ei ymgyrch gofal heb ei drefnu. Dylai'r bwrdd Iechyd gynnwys crynodeb o effaith yr ymgyrch yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig ym mis Mawrth 2018. |
| A6 | **Gwybodaeth ar gyfer monitro perfformiad neu gydymffurfio â safonau:** Nid yw'r system gweinyddu cleifion yn cipio eitemau data a allai gefnogi'r broses o fonitro ac adrodd ar gydymffurfiaeth â safonau a pholisïau rhyddhau cleifion. Dylai'r Bwrdd Iechyd asesu a ellir defnyddio'r system gweinyddu cleifion i gipio eitemau data ychwanegol, fel a yw'r broses ryddhau'n syml neu'n gymhleth ac ar ba ddyddiad y mae claf yn 'feddygol iach' i'w ryddhau. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir i wella cynllunio i ryddhau cleifion, wedi'u cefnogi gan lwybrau rhyddhau, polisïau a mentrau gwella

### Mae cynlluniau cynhwysfawr ar waith i wella cynllunio i ryddhau cleifion, a gefnogir gan ystod o fentrau gwella

14 Ym mis Hydref 2016, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon at holl Gadeiryddion y GIG er mwyn cadarnhau ei fod yn disgwyl i gynlluniau gwella gofal heb ei drefnu ymgorffori cynlluniau i wella prosesau rhyddhau cleifion. Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru [5] hefyd yn cyfleu'n glir y dylai sefydliadau nodi sut mae eu cynlluniau yn cefnogi ac yn gwella llif cleifion. Dylid canolbwyntio ar leihau'r nifer o bobl oedrannus a bregus sy'n cael eu derbyn, drwy asesu ac ymyrryd mewn modd rhagweithiol, a rhyddhau cleifion mor fuan ag sy'n briodol o safbwynt clinigol, heb unrhyw oedi diangen.

15 Yn rhan o'n gwaith archwilio, buom yn asesu'r graddau y mae cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o ymagwedd strategol ehangach i wella llif cleifion. Mae cynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol yn rhan annatod o raglen y Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal heb ei drefnu, sydd yn grŵp traws-systemau o reolwyr a chlinigwyr sy'n gweithio gyda phartneriaid ar draws Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a'r awdurdodau lleol sydd yn rhannu'r un ffiniau â'r Bwrdd Iechyd.

16 Yn sail ar gyfer y rhaglen gofal heb ei drefnu, ceir cynlluniau treigl 13 wythnos o hyd wedi'u datblygu ar gyfer pob ysbyty a'u paratoi ar y cyd â'r timau sirol perthnasol. Mae'r cynlluniau'n seiliedig ar ddysgu yn sgil asesiadau mewnol ac allanol, ac yn cynnwys argymhellion yr Uned Gyflawni. Mae'r cynlluniau ar gyfer gofal heb ei drefnu yn rhan allweddol o gynllun gweithredol blynyddol y ac agweddau ar raglenni corfforaethol y Bwrdd Iechyd.

17 Roedd cysylltiadau cynhenid rhwng cynlluniau gaeaf y Bwrdd Iechyd a ganolbwyntiai ar y tair sir a'r cynlluniau treigl 13 wythnos ar gyfer gofal heb ei drefnu. Mae'r cynlluniau'n nodi'r camau manwl er mwyn helpu i osgoi derbyn cleifion a galluogi rhyddhau cleifion mewn modd diogel ac amserol, a'r modd y darperid adnoddau ar gyfer y camau hynny Datblygwyd cynlluniau'r gaeaf drwy ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid allweddol yn fewnol ac yn allanol, a hefyd â'r trydydd sector a sectorau annibynnol.

18 Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno, fesul cam, nifer o fentrau wedi'u mabwysiadu o Raglen Gwella Gofal Brys y GIG (Lloegr) yn rhan o'r cynlluniau treigl 13 wythnos Ers hynny, mae'r Rhaglen Gofal Heb ei Drefnu wedi cyflwyno gwaith sy'n cael ei gyflawni gan grŵp eiddilwch y Bwrdd Iechyd er mwyn cyfuno'r mentrau hyn, fel y rhaglen sgrinio eiddilwch, o dan un rhaglen. Drwy hynny gellir sicrhau gwelliannau cynaliadwy ar draws yr holl system gofal heb ei drefnu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi lansio ei ymgyrch ar gyfer gofal heb ei drefnu ar draws yr holl ysbytai ac wardiau, sy'n cynnwys:

- y 'model llif cleifion SAFER' sy'n anelu i osgoi arosiadau hwy nag sydd angen yn yr ysbyty, ac i wella llif drwy'r ysbyty (Bocs 1);

[5] Llywodraeth Cymru, **Fframwaith Cynllunio'r GIG 2017/20**

- 'rhoi terfyn ar barlys pyjamas' sy'n anelu i sicrhau bod cleifion o amgylch y lle ac allan o'u pyjamas cyn gynted ag sy'n bosib, er mwyn gwella ynghynt ac atal cymhlethdodau;
- 'coch i wyrdd' sef system rheoli weledol er mwyn cynorthwyo i adnabod amser a wastraffwyd ar daith claf; nid yw cleifion ar y rhestr goch yn cael budd o fod mewn gwely ysbyty acíwt, tra bo'r rhai ar y rhestr werdd yn dal i gael budd o gael eu derbyn i'r ysbyty, er enghraifft, drwy dderbyn therapi ar gyfer eu cyflwr gwaelodol; a'r
- '1000 diwrnod diwethaf' sy'n pwysleisio mai gwerth amser cleifion yw'r gwerth pwysicaf mewn gofal iechyd, a chreu ymdeimlad o frys i weithredu.

Bocs 1: model llif cleifion SAFER

**Bocs 1 - y model llif cleifion SAFER**

**S** – bydd pob claf yn cael **adolygiad uwch** cyn canol dydd gan glinigydd sy'n gallu gwneud penderfyniadau rheoli a chyflawni.

**A** – bydd gan **bob** claf ddyddiad rhyddhau disgwyliedig a meini prawf clinigol * ar gyfer rhyddhau gan dybio adfer delfrydol a chan dybio nad oes aros diangen.

**F** – Mae'r **llif o gleifion** yn dechrau mor gynnar â phosibl o achosion brys ac unedau asesu eraill i wardiau cleifion mewnol, tra mae wardiau sydd fel mater o drefn yn derbyn y cleifion hyn yn sicrhau bod cleifion yn dechrau cyrraedd erbyn 10 o'r gloch yb.

**E** – ceir 33% o gleifion eu rhyddhau yn **gynharach yn y dydd**, hynny yw cyn hanner dydd.

**R** – **adolygiad** tîm amlddisgyblaethol systematig o gleifion sy'n profi hyd arhosiad o fwy na saith diwrnod.


* Meini prawf clinigol yw'r statws ffisiolegol, therapiwtig a gweithredol isaf y mae angen i'r claf ei fodloni cyn cael ei ryddhau. Dylid cytuno ar hyn â'r claf a'r gofalwyr lle bo angen.

19 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG i ba raddau yr oeddent yn gweld bod ystod o ffactorau allanol yn cyfrannu at oedi cyn rhyddhau cleifion neud drosglwyddo gofal, er mwyn canfod a oedd cynlluniau'n anelu i ymdrin â'r ffactorau sy'n achosi'r mwyaf o broblemau. Yn Nangosyn 2 gwelir bod prinder o ofalwyr cartref, prinder o welyau mewn cartrefi gofal i bobl â dementia, a phrinder capasiti ar draws gwasanaethau ailalluogi cymunedol yn ffactorau o bwys sydd yn achosi oedi wrth ryddhau cleifion neu drosglwyddo gofal ledled Cymru[6].

[6] Achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yw cleifion mewnol yn yr ysbyty sydd yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf mewn gofal, ond y mae un neu fwy o resymau'n eu hatal rhag gwneud hynny.

Dangosyn 2: ffactorau sy'n cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion neu drosglwyddo gofal ar draws sefydliadau'r GIG

Mae'r siart yn dangos y i ba raddau yr ystyrir bod ystod o ffactorau yn cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty a throsglwyddo gofal.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017[7].

20 Mae'n bwysig cydnabod nad oes gan y Bwrdd Iechyd reolaeth uniongyrchol dros y ffactorau hyn, ac mae'n cydweithio â phartneriaid statudol ac annibynnol i ganfod ffyrdd o fodloni anghenion cleifion wrth eu rhyddhau. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Tai Gofal Ychwanegol i ystyried cynnwys gofal canolraddol mewn adeiladau newydd (tai), a gweithio gydag awdurdodau lleol partner i adolygu model y ddarpariaeth ailalluogi. Serch hynny, mae'n bwysig i'r Bwrdd Iechyd ystyried y ffactorau y mae ganddo reolaeth uniongyrchol drostynt, fel gweithredu polisïau a gweithdrefnau cadarn yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion.

21 Roedd y ffactorau yr ystyriwyd eu bod 'bob amser neu'n aml' yn cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion yn amrywio rhwng tri thîm sirol y Bwrdd Iechyd (Dangosyn 3). Ar gyfer tîm Sir Caerfyrddin, ystyriwyd mai weithiau neu'n anaml y byddai'r ffactorau a restrir yn Nangosyn 2 yn cyfrannu at oedi, a chyfeiriwyd at y ffactorau a ganlyn yn lle hynny:

- oedi'n gysylltiedig â dewis cartref;

[7] Cawsom ymatebion gan y saith bwrdd iechyd a chan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae Byrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Hywel Dda yn trefnu gwasanaethau cynllunio i ryddhau cleifion ar sail ardal leol neu ddaearyddiaeth, felly mae gennym fwy nag un ffurflen ddata ar gyfer y ddau fwrdd iechyd hyn.

- oedi wrth gwblhau asesiadau integredig oherwydd diffyg capasiti o fewn y gweithlu therapi, nyrsio a gwaith cymdeithasol;
- anghydfodau ac anghytundebau teuluol ynghylch y penderfyniadau a wneir; a'r
- risg bod gwasanaethau ailalluogi'n cael eu defnyddio i gefnogi pobl sydd yn aros am ofal preswyl hirdymor.

22 Roedd ymatebion timau Sir Benfro a Cheredigion yn debycach i ymatebion gweddill Cymru. Nododd tîm Sir Benfro fod argaeledd trafnidiaeth yn aml yn ffactor a oedd yn cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion, ac ni chyfeiriodd Sir Ceredigion at unrhyw ffactorau eraill.

Dangosyn 3: ffactorau sydd bob amser neu'n aml yn cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion ar draws y tair sir ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae'r tabl yn dangos bod y ffactorau sydd bob amser neu'n aml yn cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion yn amrywio rhwng tair sir Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

| Ffactorau sy'n cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion | Sir Benfro | Ceredigion | Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|---|
| Prinder gofalwyr cartref | | Ydy | Ydy |
| Prinder gwelyau mewn cartrefi gofal i bobl â dementia | Ydy | Ydy | |
| Prinder capasiti ar draws gwasanaethau ailalluogi | Ydy | Ydy | |
| Prinder gwelyau cyffredinol mewn cartrefi nyrsio | | Ydy | |
| Yr amser a gymerir i gyflawni addasiadau tai graddfa fawr | Ydy | | |
| Prinder gwelyau mewn cartrefi gofal preswyl | | Ydy | |
| Yr amser a gymerir i osod mân addasiadau | Ydy | | |
| Diffyg cymhorthion ac offer cymunedol i gynorthwyo pobl i fyw bywyd bob dydd | Ydy | | |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 7).

23 Amlygwyd ffactorau tebyg a oedd yn cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion yn ein cyfweliadau â staff ward a rheolwyr, ac adroddwyd yn rheolaidd ar y ffactorau hyn wrth y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Dyma nhw:

- problemau'n gysylltiedig â darparu pecynnau gofal cartref i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion, neu pan fydd pobl yn camu lawr o ymyraethau gofal canolraddol i ofal cartref;
- mae rhai cleifion yn aros ar y rhestr 'meddygol iach' yn rhy hir oherwydd prinder lleoliadau gofal nyrsio;

- dibyniaeth ar staff nyrsio banc ac asiantaeth nad ydynt yn gyfarwydd â gweithdrefnau a llwybrau rhyddhau cleifion (gweler paragraff 75); ac
- eiddilwch cynyddol pobl sy'n cael eu derbyn fel achos brys, a'u hangen cynyddol am ofal nyrsio. Bydd angen hyd yn oed mwy o gymorth ar lawer o'r bobl hyn wrth eu rhyddhau.

24 Ar hyd y blynyddoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau ffrydiau ariannu sy'n anelu i feithrin mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau, a'r ddiweddaraf o'r rhain yw'r Gronfa Gofal Integredig (CGI). Adnodd cyfun yw'r CGI, a gyflwynwyd yn 2014-15, ac o ran llif cleifion, mae'n ariannu cynlluniau i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty, i gefnogi annibyniaeth pobl hŷn ac i leihau achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae'r CGI wedi cael ei defnyddio er mwyn cefnogi sawl menter i atgyfnerthu cynllunio i ryddhau cleifion ac osgoi derbyn cleifion ar draws Partneriaeth Ranbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r arian, er enghraifft, wedi cefnogi gwaith i ddatblygu ac ehangu timau neu wasanaethau rhyddhau cleifion aml-broffesiwn yn y gymuned er mwyn atal derbyniadau y gellir eu hosgoi ar draws adrannau damweiniau ac achosion brys ac unedau asesu. Fe'i defnyddiwyd hefyd i wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, gan greu swydd nyrs gyswllt rhyddhau cleifion trawsffiniol ar y cyd â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, galluogi lolfeydd rhyddhau i weithredu am gyfnod hirach a phrynu gwelyau gofal canolraddol ychwanegol mewn cartrefi nyrsio neu ofal ar gyfer asesu ac ailalluogi.

25 Dywedodd staff y cyfarfuom â hwy y byddent yn ei chael hi'n anodd, heb y CGI, i ddatblygu ac ymwreiddio ffyrdd newydd o weithio ac ariannu'r cynlluniau gaeaf. Ystyriwyd hefyd fod y CGI yn helpu i wella perthnasoedd gwaith ag awdurdodau lleol am ei fod yn galluogi dulliau creadigol o gefnogi pobl sy'n symud o'r ysbyty yn ôl i'r gymuned.

## Mae lle i atgyfnerthu'r Polisi Rhyddhau a Throsglwyddo Gofal y tro nesaf y caiff ei ddiweddaru

26 Dylid ystyried y broses ryddhau yn rhan o broses ofal ehangach, yn hytrach na'i hystyried fel digwyddiad ynysig ar ddiwedd arhosiad y claf. Dylai sefydliadau'r GIG gael polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rhyddhau ac/neu drosglwyddo gofal, ac yn ddelfrydol dylid datblygu'r rheiny mewn cydweithrediad â phartneriaid statudol. Dylai sefydliadau'r GIG hefyd gael polisi i gynnig dewis i'r cleifion hynny y mae angen iddynt symud ymlaen i gartref gofal yn rhan o'u trefniadau gofal parhaus, er y gallai'r dewis fod yn brin mewn sawl ardal.

27 Adolygwyd Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal y Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio matrics aeddfedrwydd[8] i asesu 17 o elfennau'r polisi. Dyfarnwyd sgôr o un (llai datblygedig) i dri (datblygedig iawn) i bob elfen. Yn Nangosyn 4 gwelir ein hasesiad o bolisi rhyddhau cleifion y Bwrdd Iechyd o'i sgorio yn erbyn y matrics aeddfedrwydd. Gwelsom yn ein hasesiad nad oedd nifer fach o'r elfennau wedi'u datblygu i'r un graddau â'r gweddill, gan sgorio un. Gellid atgyfnerthu'r polisi drwy gynnwys:

- y daflen rhyddhau cleifion;
- y pum llwybr rhyddhau cymhleth sy'n cefnogi'r polisi;
- rhestr wirio rhyddhau;

[8] Mae ein matrics aeddfedrwydd yn seiliedig ar yr Offeryn Archwilio Hunanasesu ar gyfer Cynllunio i Ryddhau'n Effeithiol, a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd yn 2008.

- cysylltiadau â'r polisi Dewis Cartref;
- gweithdrefnau uwchgyfeirio arferol;
- trefniadau ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau o adrannau damweiniau ac achosion brys/unedau asesu clinigol; a
- sicrhau cysondeb â'r mentrau sy'n tarddu o'r ymgyrch gofal heb ei drefnu.

## Dangosyn 4: Perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn rhestr wirio arfer da y polisi rhyddhau cleifion

Dengys y tabl fod lle i atgyfnerthu polisi rhyddhau cleifion y Bwrdd Iechyd gan fod 13 o'r 17 o elfennau a aseswyd wedi derbyn sgôr o un neu ddau.

| Elfennau a aseswyd | Sgôr | Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi |
|---|---|---|
| Polisi rhyddhau aml-asiantaeth | 1 | O ran ymgynghori, mae'r polisi'n canolbwyntio ar y Bwrdd Iechyd, ond nodir yn y polisi y rhoddir cyhoeddusrwydd iddo ac y'i rhennir ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, timau gofal sylfaenol a thimau adnoddau cymunedol. |
| Adolygwyd y polisi o fewn y flwyddyn ddiwethaf | 3 | Cadarnhaodd y Grŵp Adolygu Polisi Clinigol y polisi ym mis Mai 2016. Caiff y polisi ei adolygu a'i ddiweddaru bob dwy flynedd, a bwriedir cynnal yr adolygiad nesaf ym mis Mai 2018.<br>Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r amserlen ar gyfer yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) yn gyson â'r amserlen ar gyfer diwygio'r polisi. Cynhaliwyd yr AEC ym mis Awst 2014, ac eto ym mis Mawrth 2015. |
| Cynnwys cleifion / gofalwyr | 3 | Mae'r polisi'n cyfleu'n glir y dylid cynnwys cleifion a'u cynrychiolwyr dynodedig o'r cychwyn cyntaf yn y broses ryddhau, ond nid oes unrhyw awgrym bod cleifion na'u cynrychiolwyr wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu polisi. |
| Cyfathrebu | 2 | Nodir yn y polisi y dylid ymdrin ag anghenion Cymraeg a Saesneg bob amser drwy ddefnyddio'r mecanweithiau cyfathrebu ychwanegol sydd ar gael, ee, cyfieithwyr drwy'r llinell iaith. |
| Gwybodaeth | 2 | Mae'r polisi'n cyfeirio at yr angen i gynnig cyfleoedd i gleifion drafod gofal gan gyfeirio'n arbennig at ddarparu gwybodaeth i gleifion am feddyginiaethau i fynd adref.<br>Mae'r polisi drafft Dewis Cartref yn cyfeirio at becynnau gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion sydd angen lle parhaol mewn cartref gofal, yn ogystal â phecyn gwybodaeth i gefnogi'r broses ryddhau a ddylai gynnwys cyngor ynglŷn â'r broses, amserlenni a disgwyliadau'r claf neu ei gynrychiolydd.<br>Ar adeg yr archwiliad, roedd y Bwrdd Iechyd yn datblygu pamffled/taflen wybodaeth am ryddhau i gleifion. |

| Elfennau a aseswyd | Sgôr | Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi |
|---|---|---|
| Grwpiau sy'n agored i niwed ee cleifion sy'n ddigartref | 2 | Mae'r polisi'n rhoi diffiniad clir o unigolyn sy'n agored i niwed ac yn cyfeirio staff at bolisïau a gweithdrefnau eraill perthnasol.<br>Mae'r polisi'n cynnwys oedolion, plant a phobl ifanc, ond yn eithrio babanod newydd-anedig. Ar gyfer plant a phobl ifanc, cyfeirir yn benodol at yr angen i rannu crynodebau rhyddhau cleifion ag Ymwelwyr Iechyd a Nyrsys Ysgol, yn ogystal â meddygon teulu. Y mae hefyd yn cyfeirio staff at gynlluniau gwasanaeth cyfarwyddiaethau neu safleoedd ysbyty ar gyfer rheoli rhyddhau neu drosglwyddo plant a phobl ifanc.<br>Mae'r polisi'n cyfeirio at weithdrefnau diogelu ac yn atgoffa'r staff i ystyried atgyfeirio i'r tîm diogelu. |
| Cynllunio'n fuan i ryddhau yn achos derbyniad dewisol | 3 | Mae'r polisi'n nodi y dylid amcangyfrif hyd arhosiad y claf cyn cynnal llawdriniaeth. |
| Pennir amcan o'r dyddiad rhyddhau cyn pen 24 awr ar ôl derbyn y claf. | 3 | Mae'r polisi'n nodi'r meini prawf ar gyfer cytuno a yw'r broses ryddhau'n syml neu'n gymhleth ac yn atgoffa'r staff y dylid pennu ADRh pob claf cyn pen 24 awr ar ôl ei dderbyn. |
| Osgoi Aildderbyn | 1 | Er bod y polisi'n pwysleisio bod angen rhyddhau cleifion yn brydlon, ni chyfeirir o gwbl at yr angen i daro cydbwysedd rhwng hynny a'r risg o orfod eu haildderbyn.<br>Nodir yn y polisi na ddylid ond trosglwyddo cleifion â dementia yn ystod y dydd. O ran y cleifion hynny nad ydynt yn achosion brys sydd angen trafnidiaeth a ddarperir gan y gwasanaeth ambiwlans, nodir yn y polisi na ddylid ond eu trosglwyddo o ddydd Llun i ddydd Gwener ar ôl 8.30am a chyn 4.30pm, onid oes gwir angen eu trosglwyddo y tu hwnt i'r oriau hynny, pan fo'r goruchwylydd cyswllt ambiwlans ar gael. |
| Cytundebau a Phrotocolau Lleol | 2 | Mae'r polisi'n cyfeirio at weithdrefnau a phrotocolau ar gyfer rhyddhau ar lefel ward (sylwer na wnaethom adolygu dogfennau ar lefel ward). |
| Asesu | 2 | Mae'r polisi'n cyfeirio at y posibilrwydd y bydd angen cynnal asesiadau gofal iechyd parhaus neu asesiadau galluedd meddyliol. |
| Rhyddhau o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys | 1 | Nid yw'r polisi ond yn berthnasol wrth dderbyn cleifion mewnol. Ni chyfeirir at y broses ar gyfer rheoli cleifion a gaiff eu rhyddhau o adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau asesu meddygol/clinigol. |
| Rhyddhau'n syth o'r ysbyty i gartref gofal parhaol | 1 | Ni nodir yn benodol na ddylid trosglwyddo cleifion yn uniongyrchol o'r ysbyty i gartref gofal parhaol. Fodd bynnag, nodir yn glir yn nrafft y Polisi Dewis Cartref 'na ddylid, fel rheol, rhyddhau cleifion yn syth o episod acíwt o ofal yn yr ysbyty i leoliad parhaol mewn cartref gofal.' |
| Cysylltiadau â'r polisi dewis llety | 3 | Nodir yn y polisi beth yw'r disgwyliadau wrth drefnu i ddewis cartref gofal. Cyflëir yn glir ar yr un pryd nad oes gan gleifion yr hawl aros mewn gwely acíwt yn yr ysbyty tra bo'r trefniadau'n cael eu gwneud. Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd y Bwrdd Iechyd wedi datblygu polisi Dewis Cartref yr oedd ymgynghoriad yn cael ei gynnal arno. |

| Elfennau a aseswyd | Sgôr | Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi |
|---|---|---|
| Opsiynau Gofal | 2 | Mae'r polisi'n cyfeirio at yr angen i ystyried yr holl opsiynau i gleifion a chanddynt broblemau'n gysylltiedig â gofal iechyd parhaus y GIG, dewis cartref neu eiriolaeth iechyd meddwl. |
| Prosesau uwchgyfeirio | 2 | Nodir yn y polisi fod gweithdrefnau uwchgyfeirio clinigol wedi'u sefydlu i'w dilyn gan dimau'r gyfarwyddiaeth acíwt a chymunedol os ceir oedi wrth ryddhau, neu os oes perygl o oedi wrth ryddhau. Rhoddir disgrifiad clir o'r rhesymau dros uwchgyfeirio achosion sy'n wynebu oedi. |
| Protocolau Rhyddhau Hygyrch | 1 | Er bod y polisi'n rhoi disgrifiad o Achosion rhyddhau syml a chymhleth, nid yw'n cynnwys siart lif hawdd ei deall er mwyn helpu i benderfynu a yw achosion yn syml neu'n gymhleth, na'r pum prif lwybr ryddhau. Mae drafft y polisi Dewis Cartref yn cynnwys siart lif sy'n dangos y broses cynllunio i ryddhau cleifion. |

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o bolisi rhyddhau cleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, 2017.

28 Canfu'r Uned Gyflawni nad oedd rhyw lawer o dystiolaeth yng nghofnodion cleifion fod staff wedi trafod disgwyliadau rhyddhau gyda'r cleifion. Ar adeg ein harchwiliad, roedd y Bwrdd Iechyd yn datblygu, ar y cyd â'r grŵp cyswllt cleifion, pamffled/taflen wybodaeth am ryddhau i gleifion. Mae drafft y pamffled yn cyfeirio at asesu anghenion rhyddhau wrth dderbyn y claf, amcangyfrif o ddyddiadau rhyddhau (ADRh), trosglwyddo i'r lolfa ryddhau ac amryw o awgrymiadau i gleifion, fel trefnu cludiant adref.

29 Dylid diffinio'n glir y rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer rhyddhau cleifion mewn modd diogel ac amserol mewn polisïau a gweithdrefnau. Drwy wneud hynny, gwneir defnydd effeithiol o sgiliau a gwybodaeth, a bydd aelodau unigol o staff yn cael eu dwyn i gyfrif am eu rôl yn y broses. Yn y polisi rhyddhau dylid hefyd bennu'r safonau ar gyfer yr holl staff sy'n gyfrifol am ryddhau cleifion.

30 Ym 'Mholisi Rhyddhau a Throsglwyddo Gofal' y Bwrdd Iechyd, ceir amlinelliad clir o rolau a chyfrifoldebau aelodau gweithredol ac uwch reolwyr y bwrdd mewn perthynas â'r broses ryddhau. Mae hyn yn cynnwys gwaith datblygu polisi strategol er mwyn sicrhau ansawdd a diogelwch, a gweithredu'r polisi a monitro cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, ni chyfeirir yn benodol at rolau a chyfrifoldebau staff ward, ond mae'r polisi yn nodi yr hyn y dylid ei gynnwys mewn protocolau rhyddhau lleol ar wardiau, fel cynllunio i ryddhau cleifion erbyn 10am ar unrhyw ddydd o'r wythnos.

31 Nid yw'r Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal yn pennu terfyn amser ar gyfer rhyddhau cleifion neu eu trosglwyddo o wardiau mewnol. Gofynnwyd i'r staff pryd oedd yr adeg hwyraf y byddai cleifion yn cael eu rhyddhau. Dywedodd staff wrthym fod cleifion yn Sir Benfro yn dibynnu ar drafnidiaeth o'r ysbyty adref, a bod Tîm Sefydliadau Gwirfoddol Canolraddol Sir Benfro yn derbyn ei alwad olaf am 8pm i sicrhau bod cleifion yn cyrraedd adref erbyn 9pm, a'i fod yn gallu sicrhau eu bod yn ddiogel yn eu cartref. Yng Ngheredigion, ni fyddai staff ond yn rhyddhau cleifion yn hwyr os oeddent yn hyderus bod cefnogaeth ar gael gartref. Ni allai yr un aelod o staff a welsom gofio unrhyw broblemau'n gysylltiedig â rhyddhau'n hwyr.

32 Mae'r 'Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal' yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad allweddol er mwyn monitro cydymffurfiaeth a sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal priodol, gan gynnwys cynyddu canran y cleifion a gaiff eu rhyddhau cyn 11am. Yn yr adolygiad nesaf sydd

wedi'i drefnu ar gyfer y polisi, dylai'r Bwrdd Iechyd gadarnhau'r ffrâm amser ar gyfer monitro'r amser rhyddhau, oherwydd mae'r model llif cleifion SAFER yn anelu i ryddhau 33% o gleifion o wardiau mewnol cyn hanner dydd, ac anogir wardiau i ryddhau cleifion erbyn 10am.

## Mae llwybrau rhyddhau ffurfiol, wedi'u datblygu ag awdurdodau lleol partner, ac y'u cytunwyd arnynt â'r awdurdodau hynny, yn cael eu rhoi ar waith

33 Dylid ystyried cynllunio i ryddhau o'r ysbyty yn broses barhaus a gynhelir bob dydd o'r wythnos. Er na fydd yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau'r claf ar gael bob amser, dylai'r gwaith cyfathrebu, cynllunio a
chydgysylltu barhau. Gall llwybrau rhyddhau diffiniedig sy'n nodi'r gyfres o gamau y mae angen eu cymryd ac amseriad ymyraethau gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer grwpiau diffiniedig o gleifion, yn enwedig rhai ag anghenion cymhleth, fod o gymorth i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n ddiogel a phrydlon.

34 Yn gynnar yn 2016, datblygodd rheolwyr gwasanaethau cymunedol bum llwybr rhyddhau cymhleth mewn ymateb i adroddiad yr Uned Gyflawni ar ofal heb ei drefnu. Datblygwyd y llwybrau er mwyn gwahaniaethu rhwng lefel y cymorth sydd ei hangen ar gleifion sy'n cael eu rhyddhau a'r safonau y dylid eu cyrraedd. Datblygwyd y llwybrau er mwyn rhoi arweiniad a chyfarwyddyd i staff ward ynghylch yr holl lwybrau rhyddhau cymhleth i gleifion ochr yn ochr â'r Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal.

35 Datblygwyd y llwybrau rhyddhau cleifion mewn cydweithrediad â thri awdurdod lleol partner y Bwrdd Iechyd, a chytunwyd mewn egwyddor â'r awdurdodau hynny ar y llwybrau. Cymerwyd mwy o amser na'r disgwyl i ddatblygu'r llwybrau, ac fe'u rhoddwyd ar waith ym mis Hydref 2016.

36 Yn rhan o'n gwaith archwilio, buom yn edrych ar y prif lwybrau rhyddhau sydd ar waith ledled Sefydliadau'r GIG. Aseswyd yr eglurder ynghylch dibenion y llwybrau a'r defnydd ohonynt ar draws sefydliad, a oedd llwybrau wedi'u datblygu gydag awdurdodau lleol partner, ac a oedd algorithmau, dogfennau safonedig a mesurau ansawdd i gefnogi'r llwybrau.

37 Buom yn adolygu'r pum llwyr cymhleth yn erbyn y meini prawf a nodir yn Nangosyn 5. Dengys ein hadolygiad fod y llwybrau rhyddhau yn gynhwysfawr ar y cyfan, gan nodi'r garfan o gleifion y mae'r llwybrau'n berthnasol iddynt ynghyd â'r canlyniad a fwriedir i'r claf. Mae'r llwybrau hefyd yn nodi'r camau amrywiol yn y broses ryddhau y mae aelodau'r tîm amlddisgyblaeth yn gyfrifol amdanynt, pryd i gymryd pob cam a faint o amser i'w dreulio ar bob cam, a phryd i uwchgyfeirio materion sy'n amharu ar y gallu i ryddhau'r claf yn brydlon.

## Dangosyn 5: elfennau a gyflwynir yn llwybrau rhyddhau'r Bwrdd Iechyd

Mae'r tabl yn dangos bod llwybrau rhyddhau cymhleth y Bwrdd Iechyd yn gynhwysfawr ar y cyfan o'u hasesu yn erbyn ystod o feini prawf.

| Elfennau | Enw'r llwybrau rhyddhau cymhleth | | | | | Sylwadau'r Archwilydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ailgychwyn pecyn gofal | Pecyn gofal atodol neu becyn gofal hirdymor newydd | Rhyddhau i asesu ar gyfer ailalluogi | Gofal preswyl / nyrsio arhosiad byr (gan gynnwys ysbyty cymunedol) | Gofal nyrsio preswyl arhosiad hir | |
| Diagram llif/coeden benderfyniadau er mwyn nodi cleifion priodol | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Er nad oes coeden benderfyniadau benodol, mae pob llwybr yn disgrifio'r garfan o gleifion y mae'r llwybrau'n addas ar eu cyfer. |
| Cyrchfan rhyddhau benodol ee man preswylio arferol | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Nodir y gyrchfan ryddhau ddisgwyliedig ym mhob llwybr. |
| Pwrpas clir | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Mae pob llwybr yn pennu'r canlyniad a ddisgwylir ar gyfer pob claf a ryddheir o'r ysbyty. |
| Llwybr cyffredinol neu lwybr ar gyfer cyflwr penodol | Cyffredinol | Cyffredinol | Cyffredinol | Cyffredinol | Cyffredinol | |
| Logisteg trafnidiaeth neu drosglwyddo wedi'u cydnabod yn glir | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Cyfeirir adran trefniadau trafnidiaeth y Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal i sylw'r staff, sy'n cyfleu'n glir bod angen penderfynu ar gategori a natur y drafnidiaeth sydd ei hangen cyn gwneud cais am y drafnidiaeth honno. |
| Yn berthnasol ar draws yr holl safleoedd ysbyty | Heb Nodi | Heb Nodi | Heb Nodi | Heb Nodi | Heb Nodi | Er nad yw hynny wedi'i nodi'n glir, mae'n amlwg o'r cyfweliadau â'r staff y dylai'r llwybrau rhyddhau fod yn berthnasol ar draws y prif ysbytai. |

| Elfennau | Enw'r llwybrau rhyddhau cymhleth | | | | | Sylwadau'r Archwilydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ailgychwyn pecyn gofal | Pecyn gofal atodol neu becyn gofal hirdymor newydd | Rhyddhau i asesu ar gyfer ailalluogi | Gofal preswyl / nyrsio arhosiad byr (gan gynnwys ysbyty cymunedol) | Gofal nyrsio preswyl arhosiad hir | |
| Yn berthnasol bob awr o'r dydd, bob dydd o'r flwyddyn | Heb Nodi | Heb Nodi | Heb Nodi | Heb Nodi | Heb Nodi | Er nad yw hynny wedi'i nodi'n glir, mae'n amlwg o'r cyfweliadau â'r staff y dylai'r llwybrau rhyddhau fod yn berthnasol bob awr o'r dydd, bob dydd o'r wythnos a phob dydd o'r flwyddyn. Yn ôl y Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal, dylai cleifion mewnol gael eu rhyddhau ar benwythnosau yn ogystal ag o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fodd bynnag, ni chyfeirir yn benodol at achosion posib o ryddhau cleifion yn y nos neu ar benwythnosau, a'r modd y gweithredir y llwybrau ar yr amseroedd hyn pan gyfyngir ar lawer o wasanaethau cymunedol. pan na fydd llawer o wasanaethau cymunedol ar gael. |
| Wedi'i ddatblygu â phartneriaid y GIG, ee Byrddau Iechyd Lleol cyfagos, WAST neu Felindre | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Llwybrau wedi'u datblygu gan dimau rheoli'r gwasanaethau sirol a chymunedol, ond staff mewn ysbytai heb eu cynnwys. |
| Wedi'i ddatblygu gydag awdurdodau lleol partner, ac yr un mor berthnasol i'r holl bartneriaid | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Llwybrau wedi'u datblygu gan dimau rheoli'r gwasanaeth sirol a chymunedol, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol partner. Roedd yn rhaid i'r partneriaid hyn gytuno ar y llwybrau cyn eu mabwysiadu a'u cyflwyno. |
| Wedi'i gefnogi gan ddogfennau rhyddhau cyffredinol | Heb Nodi | Heb Nodi | Heb Nodi | Heb Nodi | Heb Nodi | Dywedodd y staff nad oedd digon o ddogfennau safonedig ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion. |

| Elfennau | Enw'r llwybrau rhyddhau cymhleth | | | | | Sylwadau'r Archwilydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ailgychwyn pecyn gofal | Pecyn gofal atodol neu becyn gofal hirdymor newydd | Rhyddhau i asesu ar gyfer ailalluogi | Gofal preswyl / nyrsio arhosiad byr (gan gynnwys ysbyty cymunedol) | Gofal nyrsio preswyl arhosiad hir | |
| Wedi'i gefnogi gan ddogfennau asesu cyffredinol | Heb Nodi | Heb Nodi | Heb Nodi | Ydy* | Ydy* | *Nodir yn glir yn y llwybrau hyn pa asesiadau y dylid eu cynnal, pwy ddylai gynnal yr asesiadau hynny ac o fewn faint o amser y dylai hynny ddigwydd. |
| Mae'r prosesau atgyfeirio yn glir | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Mae pob llwybr yn darparu'r amserlen ddangosol ar gyfer cynnal y dilyniant o dasgau, gan gynnwys cysylltu â darparwyr gofal cyfredol, yn ogystal ag atgyfeiriadau i wasanaethau yn y gymuned. |
| Safonau cytunedig ar gyfer amseroedd ymateb wrth asesu anghenion | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Mae pob llwybr yn darparu'r amserlen ddangosol ar gyfer cyflawni'r dilyniant o dasgau a nodir yn y llwybr. |
| Safonau cytunedig ar gyfer amseroedd ymateb wrth ddarparu gwasanaethau | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Mae prosesau uwchgyfeirio clir wedi'u sefydlu os ceir achos o wyro oddi wrth y safonau yn y llwybr. |
| Safonau cytunedig ar gyfer ansawdd a diogelwch | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | |
| Safonau ar gyfer rhannu gwybodaeth â staff clinigol/gofal yn y gymuned ee, llythyrau rhyddhau | Ydy* | Ydy* | Oes | Oes | Oes | Disgwyliad bod y llythyr byr ynghylch rhyddhau'r claf yn cael ei anfon at feddyg teulu'r claf, neu fod y meddyg teulu'n darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol i'r cartref gofal preswyl neu nyrsio cyn pen awr ar ôl rhyddhau.<br>*Ar gyfer y ddau lwybr hyn, dylid hysbysu gweithwyr cymdeithasol cyn pen 24 awr ar ôl rhyddhau'r claf. |

Ffynhonnell y Dangosyn: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o lwybrau rhyddhau cleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, 2017

38 Yn ôl y llwybrau rhyddhau, dylid anfon crynodebau rhyddhau at feddyg teulu'r claf cyn pen awr ar ôl ei ryddhau. Dywedodd amryw o aelodau staff y gall problemau godi weithiau'n gysylltiedig ag ansawdd gwybodaeth a drosglwyddir rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd wrth ryddhau. Bydd meddygon teulu'n cwyno bod llythyrau rhyddhau yn hwyr ac yn aneglur, yn enwedig pan na fyddant yn ymwybodol bod claf wedi'i dderbyn. Ni wnaethom asesu ansawdd na phrydlondeb gwybodaeth am ryddhau a adolygir gan AGC. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu'r system llythyrau hysbysu am ryddhau electronig ar nifer fach o wardiau. Mae cyfanswm o wyth ward (dwy ym mhob prif ysbyty) yn defnyddio'r system ar hyn o bryd, a bwriedir gweithredu'r system ar wyth ward arall erbyn diwedd mis Rhagfyr 2017.

39 Dywedodd staff wrthym nad oeddent yn siŵr pa mor effeithiol yw'r llwybrau rhyddhau gan fod y llwybrau mor newydd a chan nad oedd y systemau ar waith eto i fonitro cydymffurfio â safonau neu gamau'r llwybr. Roedd y staff yn hyderus ei bod hi'n haws asesu llwyddiant a'r graddau y cydymffurfir â'r 'llwybr ailgychwyn' drwy gysoni nifer y pecynnau gofal a gafodd eu hailgychwyn, ac yn ôl yr hyn a ddywedodd cydweithwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol yn ddiweddar, mae'r 'llwybr ailgychwyn' yn gweithio. Adroddodd staff ward hefyd fod darparwyr gofal wedi cael budd o siarad â hwy yn uniongyrchol, gan fod hynny'n arbed amser.

40 Roedd staff ward yn hyderus y gellid rhoi cleifion ag anghenion gofal diwedd oes ar lwybr cyflym bob dydd os oedd angen. Caiff y cleifion hyn eu rheoli ar wahân i'r cleifion ar y rhestr meddygol iach neu'r rhestr goch a'r rhestr werdd. Pe bai angen i'r cleifion hyn dderbyn gofal iechyd parhaus (GIP), dywedodd staff wrthym y gellid cyflymu penderfyniadau ariannu heb fod angen i banel GIP gymeradwyo hynny. Mae gwasanaethau nyrsio cymunedol yn darparu gofal i'r cleifion hyn gan weithio'n agos gyda'r gwasanaeth y tu allan i oriau.

41 Y dull confensiynol o ryddhau cleifion, yn enwedig henoed bregus, yw cynnal cyfres o asesiadau yn y ward er mwyn canfod pa fath o gymorth y gallai fod arnynt ei angen gartref. Cwblheir yr asesiadau hyn fel arfer ar ôl datgan bod y claf yn 'feddygol' iach i'w ryddhau. Cyn gynted ag y bydd asesiadau wedi'u cwblhau, bydd cleifion wedyn yn cael eu rhyddhau pan fydd yr holl wasanaethau cymorth priodol neu'r holl adnoddau eraill wedi'u trefnu, a allai gymryd cryn dipyn o amser. Gelwir hyn yn llwybr neu'n fodel 'asesu i ryddhau'.

42 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn annog llwybr neu fodel 'rhyddhau i asesu'[9] [10]. Mae hynny'n golygu rhyddhau cleifion i fynd adref pan fônt yn 'feddygol' iach i'w rhyddhau, a phan nad oes angen gwely mewn ysbyty arnynt mwyach. Ar y diwrnod rhyddhau, bydd aelodau o'r tîm iechyd a gofal cymdeithasol priodol wedyn yn cynnal asesiad gartref o anghenion cymorth cleifion. Bydd hyn yn galluogi cleifion i dderbyn y lefel gywir o ofal a chymorth gartref mewn amser real, ac yn cael gwared â'r angen i gadw cleifion mewn gwely yn yr ysbyty tra bônt yn aros i asesiadau gael eu cynnal ac i wasanaethau gael eu trefnu.

43 Canfu'r Uned Gyflawni mai prin oedd y defnydd o lwybrau 'rhyddhau i asesu', ac argymhellodd y dylai sefydliadau'r GIG eu gweithredu. Gwelsom fod hanner (4 o 8) sefydliadau'r GIG wedi gweithredu model 'rhyddhau i asesu' er nad oedd y model ond wedi cael ei weithredu ar safleoedd ysbyty penodol mewn rhai sefydliadau. Un o lwybrau rhyddhau'r Bwrdd Iechyd yw llwybr 'rhyddhau i

[9] Llywodraeth Cymru (2010), **Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned - Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflawni**

[10] Llywodraeth Cymru (2011), **Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy**

asesu' lle caiff cleifion eu rhyddhau adref gyda chefnogaeth ailalluogi am gyfnod o chwe wythnos, fel bo modd asesu anghenion tymor hwy yn eu cartrefi eu hunain.

44 Yn ogystal â hyn, mae gwaith eiddilwch dan arweiniad meddyg gofal henoed a gweithiwr cymorth ar ddwy ward yn Ysbyty'r Tywysog Philip ac un ward yn Ysbyty Glangwili yn cryfhau ac yn adeiladu ar berthnasoedd â dau gartref gofal awdurdod lleol yn Sir Gaerfyrddin. Pan fydd preswylwyr y cartref gofal yn cael eu derbyn ac yn barod i'w rhyddhau, bydd y cartrefi gofal yn derbyn y preswylwyr yn ôl heb fod angen i'w staff eu hailasesu. Dywedodd y staff fod yr ymagwedd hon yn helpu i leihau hyd arosiadau. Mae cartrefi gofal preifat wedi dechrau mynegi diddordeb yn y model hwn.

# Mae adnoddau pwrpasol ar gael i gefnogi cynllunio i ryddhau cleifion ac mae staff ward yn hyderus ynghylch yr hyn sydd angen ei gyflawni, ond mae'r hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion yn anfynych, ac ymddengys nad yw lolfeydd rhyddhau yn cael eu defnyddio'n ddigonol

## Mae adnoddau amlddisgyblaethol pwrpasol ar waith i gefnogi cynllunio i ryddhau cleifion

45 Tîm cyswllt rhyddhau yw tîm arbenigol sy'n anelu i gefnogi proses trosglwyddo gofal ddiogel a di-dor ar gyfer cleifion sydd yn symud o'r ysbyty i ddarpariaeth gwasanaeth yn y gymuned. Gall y timau hyn fod yn ffynhonnell werthfawr o gefnogaeth a gwybodaeth i staff ward, a chynnig cymorth i hwyluso achosion rhyddhau cymhleth.

46 Gofynnwyd am wybodaeth gan bob sefydliad o fewn y GIG ynghylch a ydynt yn gweithredu gwasanaethau/timau cyswllt ar gyfer rhyddhau, ac ynghylch cwmpas y gwasanaethau hynny. Ledled Cymru, gwelsom fod holl sefydliadau'r GIG, ac eithrio Ymddiriedolaeth GIG Felindre, yn gweithredu un neu fwy o dimau cyswllt ar gyfer rhyddhau. Mae'r holl dimau'n gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod oriau swyddfa, a'r amser gorffen hwyraf yw 5.30pm. Dywedodd saith o'r 15 o dimau eu bod yn rheoli achoson rhyddhau syml a chymhleth.

47 Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu pedwar tîm rhyddhau sydd wedi'u halinio â'r pedwar prif ysbyty, ond a reolir yn rhan o wasanaethau cymunedol ar raddfa sirol. I ddibenion yr adroddiad hwn, gelwir timau'r Bwrdd Iechyd yn dimau cyswllt rhyddhau cleifion. Dyma'r pedwar tîm:

- y Gwasanaeth Cynghori a Chyswllt ar gyfer Trosglwyddo Gofal (TOCALS) sydd yn trafod Ysbytai Glangwili a'r Tywysog Philip;
- y tîm Asesu Opsiynau yn Lle Derbyn i'r Ysbyty (AA2A) sy'n trafod Bronglais, sy'n cynnwys swydd a ariennir ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys; a'r
- gwasanaeth nyrs gyswllt rhyddhau cleifion yn Sir Benfro.


48 Mae'r timau'n gweithredu rhwng 8.00am neu 8.30am hyd 5.00pm ar bob dydd o'r wythnos, gan gynnwys gwyliau banc. Ar benwythnosau, disgwylir i staff ward gyflymu cynlluniau rhyddhau y cytunwyd arnynt eisoes, gan barhau i gynllunio i ryddhau cleifion er mwyn osgoi arosiadau diangen yn yr ysbyty a gwella llif cleifion. Ar adeg ein harchwiliad, roedd y ffisiotherapyddion yn nhîm Glangwili yn darparu ymyraethau wedi'u targedu ar y penwythnos, ac roedd cynlluniau ar droed i

brofi mewnbwn therapi galwedigaethol ar y penwythnos. Ers ein gwaith archwilio, mae'r AA2A wedi symud tuag at fodel saith diwrnod, ac mae rhaglen ryddhau wedi'i harwain gan nyrsys yn cael ei phrofi ar benwythnosau ar wardiau ym Mronglais.

49 Fel arfer, bydd timau cyswllt rhyddhau yn cynnwys staff nyrsio ond, er mwyn cael rheolaeth well ar achosion rhyddhau cymhleth, dylai'r timau fod yn amlddisgyblaethol. Yn Nangosyn 6 gwelir y gwahanol aelodau staff proffesiynol sy'n ffurfio timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru. Dim ond pedwar tîm sy'n amlddisgyblaethol, ac mae gweddill y timau'n cynnwys staff nyrsio. Mae timau cyswllt rhyddhau yn amrywio o ran maint rhwng dau aelod staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) a 29 aelod o staff CALl, gyda'r timau mwy yn gweithio ar draws amryw o safleoedd ysbyty. Roedd y timau'n cynnwys saith aelod CALl o staff ar gyfartaledd.

Dangosyn 6: gwahanol aelodau staff proffesiynol a ddyrannwyd i dimau cyswllt rhyddhau yng Nghymru ar 30 Medi 2016

Mae'r siart yn dangos bod timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru yn cynnwys staff nyrsio yn bennaf.




*Mae 'arall' yn cynnwys gwasanaethau fferyllol a gweinyddol

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am dimau cyswllt rhyddhau, 2017.[11]

[11] Mae'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru yn gweithredu timau cyswllt rhyddhau. Cawsom 15 o ffurflenni data oddi wrth dimau cyswllt rhyddhau, er nad oedd yr holl ffurflenni data yn gyflawn. Caiff y rhan fwyaf o dimau cyswllt rhyddhau cleifion eu rheoli fel gwasanaethau ar wahân, ond mewn dau fwrdd iechyd fe'u

50 Mae tri o dimau cyswllt rhyddhau'r Bwrdd Iechyd - Glangwili, y Tywysog Philip a Bronglais - yn dimau amlddisgyblaethol, gan gynnwys nyrsys, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, gweithwyr cymdeithasol a chynorthwywyr gofal iechyd. Ar adeg ein harchwiliad, cafodd 13 aelod CALl o staff eu rhoi ar waith (ac eithrio swyddi gwag) ar draws timau Glangwili a'r Tywysog Philip, a 4.7 aelod CALl o staff ym Mronglais. Mae cyfansoddiad amlddisgyblaethol y timau hyn yn adlewyrchu eu cylch gorchwyl o ran osgoi derbyniadau y gellir eu hosgoi wrth y 'drws blaen', yn enwedig yn achos pobl hŷn fregus, drwy eu hatgyfeirio i dderbyn cefnogaeth briodol yn y gymuned. Mae'r timau hefyd yn cefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau achosion cymhleth yn gysylltiedig â'r cleifion hynny sydd angen eu derbyn. Roedd tîm Llwynhelyg y llawer llai - 2.4 aelod staff CALl - ac yn canolbwyntio ar gefnogi'r broses o ryddhau cleifion mewnol o ysbytai acíwt a chymunedol. Yn Llwynhelyg, mae tîm ar wahân yn yr adran damweiniau ac achosion brys - y Tîm Cymorth Aml-asesu - yn nodi'r cleifion hynny lle gellir osgoi eu derbyn fel achos acíwt gyda chefnogaeth briodol yn y gymuned. Nid yw gwybodaeth am y tîm hwnnw wedi'i gynnwys yn ein dadansoddiad o wybodaeth a ddarparwyd gan dimau cyswllt rhyddhau.

51 Cyfanswm cost 13 o'r 15 o dimau cyswllt rhyddhau oedd £2.9 miliwn rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016, ac roedd costau'r timau unigol yn amrywio rhwng £43,000 a £692,000. £244,000 oedd y gost gyfartalog fesul tîm cyswllt rhyddhau. O fewn y Bwrdd Iechyd, roedd y timau cyswllt rhyddhau yn costio cyfanswm o £942,000, gan amrywio rhwng £98,000 a £692,000 (Dangosyn 7).

Dangosyn 7: cost timau cyswllt rhyddhau'r Bwrdd Iechyd rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016

Mae'r tabl isod yn dangos cost timau cyswllt rhyddhau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016.

| Tîm cyswllt rhyddhau | Cost y gwasanaeth cyswllt rhyddhau (£) |
|---|---:|
| Ysbyty Llwynhelyg | 97,631 |
| Ysbyty Bronglais | 153,321 |
| Ysbytai Glangwili a'r Tywysog Philip | 692,443 |
| Cyfanswm y Gost | 942,395 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am dimau cyswllt rhyddhau, 2017.

52 Oherwydd bylchau yn yr wybodaeth am gostau staffio, gweithgarwch a gwasanaethau, mae'n anodd sefydlu gwerth cymharol am arian y timau cyswllt rhyddhau oddi mewn i sefydliadau'r GIG/rhwng gwahanol sefydliadau'r GIG. Dim ond pedwar o'r pymtheg tîm cyswllt rhyddhau ar draws Cymru a ddarparodd yr wybodaeth y gwnaethom ofyn amdani. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan y pedwar tîm hwn, buom yn cymharu nifer y cleifion a gafodd eu rhyddhau rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016 a'r nifer o aelodau staff CALl. Roedd nifer yr achosion o ryddhau fesul aelod staff CALl yn amrywio rhwng 50 a 250; ar gyfartaledd, roedd 117 o gleifion yn cael eu rhyddhau fesul aelod staff CALl.

rheolir fel un gwasanaeth integredig. Mae'r aelodau eraill o staff yn cynnwys staff gweinyddol a fferyllwyr, er enghraifft.

53 Ym Mronglais, cefnogodd y tîm cyswllt rhyddhau 95 o achosion rhyddhau fesul aelod staff CALl. Nid yw'r wybodaeth sydd gennym ar gyfer y tri thîm arall yn gyflawn. Fodd bynnag, dywedodd timau cyswllt rhyddhau Glangwili a Llwynhelyg eu bod wedi rheoli pumed rhan o'r holl achosion o ryddhau o'r ysbyty rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016.

54 Ni allwn gasglu a oes cydberthynas gadarnhaol rhwng nifer yr aelodau staff CALl ar y timau hyn a rhyddhau mewn modd diogel a phrydlon. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn casglu gwybodaeth am nifer y bobl a gefnogir gan y timau TOCAL ac AA2A er mwyn osgoi eu derbyn i'r ysbyty, neu a gaiff eu rhyddhau cyn pen 72 awr, ac amlygwyd hyn mewn adroddiadau ar berfformiad a chynlluniau gofal heb ei drefnu.

55 Yn adolygiad dilynol yr Uned Gyflawni o ofal heb ei drefnu o fewn y Bwrdd Iechyd yn 2015, dangoswyd bod rôl nyrsys cyswllt rhyddhau yn amrywio ar draws y pedwar safle. Yn rhan o'n gwaith archwilio, gofynnwyd i dimau cyswllt rhyddhau ddisgrifio pa mor aml yr oeddent yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi cynlluniau rhyddhau. Roedd pedwar tîm y Bwrdd Iechyd bob amser neu'n aml yn cyflawni'r un gweithgareddau â thimau eraill ledled Cymru (Dangosyn 8), ond gwelwyd eithriadau amlwg rhwng y timau sirol, fel a ganlyn:

- adroddodd tîm Glangwili eu bod bob amser yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff clinigol er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n brydlon, ond weithiau neu'n anaml y bydd y tri thîm arall yn gwneud hynny. Yn ôl cyfweliadau â staff ward a'r timau cyswllt rhyddhau ceir cyfleoedd am hyfforddiant anffurfiol yn codi yn ystod rhawdiau'r bwrdd ar y wardiau neu yn unedau asesu adrannau damweiniau ac achosion brys[12].
- mae tîm Glangwili weithiau'n rhoi cyngor a chymorth ynghylch opsiynau tai i gleifion a'u teuluoedd.
- mae tîm Bronglais weithiau'n gweithio gyda rheolwyr gweithredol i ddatblygu mesurau perfformiad ar gyfer rhyddhau cleifion o ysbytai.
- mae tîm Llwynhelyg weithiau'n cyfeirio cleifion a'u teuluoedd i dderbyn cyngor a chefnogaeth er mwyn parhau i fyw'n annibynnol gartref.

[12]Mae rhawd y Bwrdd yn gyfle i'r tîm amlddisgyblaeth drafod yr hyn sydd angen digwydd er mwyn ryddhau pob claf ar y dyddiad rhyddhau a amcanwyd ar ei gyfer. Gellir atgyfeirio achosion i'w hasesu a mynd ar drywydd camau gweithredu.

Dangosyn 8: nifer y timau cyswllt rhyddhau sydd yn adrodd eu bod bob amser neu'n aml yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau.

Mae'r tabl yn cymharu nifer y timau cyswllt rhyddhau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a ledled Cymru a adroddodd eu bod bob amser neu'n aml yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau.

| Gweithgareddau cynllunio i ryddhau cleifion | Nifer y timau sy'n adrodd eu bod yn cyflawni gweithgareddau bob amser neu'n aml | |
|---|---|---|
| | Bwrdd Iechyd | Cymru Gyfan |
| Cymryd rhan mewn rhawdiau ward neu gyfarfodydd amlddisgyblaeth | 4 | 5 |
| Cynorthwyo staff i adnabod cleifion bregus a allai wynebu oedi | 4 | 8 |
| Sicrhau bod cynlluniau rhyddhau unigol ar waith i gleifion ag anghenion cymhleth | 4 | 9 |
| Cysylltu â chyrff cyhoeddus eraill i rwyddhau'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac osgoi aildderbyniadau | 4 | 9 |
| Creu man cyswllt canolog ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol | 4 | 10 |
| Gweithio gyda rheolwyr gweithredol i ddatblygu mesurau perfformiad ar gyfer rhyddhau cleifion o ysbytai | 3 | 4 |
| Dilysu data ar achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (OwDG) | 4 | 13 |
| Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff clinigol ar ryddhau cleifion yn brydlon | 1 | 5 |
| Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i reolwyr gwely ynghylch rhyddhau cleifion | 4 | 10 |
| Darparu cyngor a chymorth ynghylch opsiynau tai i gleifion a'u teuluoedd | 3 | 4 |
| Cyfeirio cleifion a'u teuluoedd i dderbyn cyngor a chefnogaeth er mwyn parhau i fyw'n annibynnol gartref | 3 | 5 |
| Cyfanswm y timau | 4 | 15 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am dimau cyswllt rhyddhau, 2017.

56 Mae Atodiad 4 yn dangos y graddau y mae timau cyswllt rhyddhau yn cyflawni ystod o weithgareddau ledled Cymru, o gyflawni'r gweithgareddau hynny bob amser hyd at beidio byth â'u cyflawni. Mae'r timau cyswllt rhyddhau hefyd yn gyfrifol am gamau ar rai o'r llwybrau rhyddhau lle bydd angen i gleifion dderbyn gofal tymor byr neu hir mewn ysbyty cymunedol neu gartref preswyl neu nyrsio.

## Mae lolfeydd rhyddhau ar gael, ond ymddengys nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol

57 Gall lolfa ryddhau hefyd gefnogi cynlluniau rhyddhau effeithiol a llif cleifion drwy ryddhau gwelyau'n brydlon i gleifion eraill sy'n cael eu derbyn. Mae lolfeydd rhyddhau yn cynnig lle addas i gleifion aros i berthnasau neu drafnidiaeth yr ysbyty eu casglu, neu i aros am ddosbarthu eu meddyginiaeth.

58 Holwyd sefydliadau'r GIG ynghylch eu cyfleusterau o ran lolfeydd rhyddhau. Ar draws Cymru, gwelsom fod pob bwrdd iechyd, ar wahân i Bowys, yn gweithredu lolfeydd rhyddhau yn eu hysbytai acíwt. Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd gan y lolfeydd rhyddhau ledled Cymru y capasiti i gefnogi 192 o gleifion oedd yn disgwyl cael eu rhyddhau ar unrhyw bryd; capasiti cyfartalog pob lolfa ryddhau oedd 11. Ar draws Cymru, mae lolfeydd rhyddhau ar agor am 8 i 12 awr y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig, ac mae nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gweithio ynddynt fel arfer. Ceir hefyd gyfleusterau bwyd a thoiledau i'r cleifion.

59 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu lolfeydd rhyddhau yn ei bedwar ysbyty cyffredinol dosbarth o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gŵyl y banc. Mae tair lolfa ryddhau yn gweithredu o 8.30am am hyd at 9.5 awr. Mae lolfa ryddhau Bronglais yn gweithredu am chwe awr o 9am ymlaen. Mae drafft y Bwrdd Iechyd o'i bamffled/taflen wybodaeth rhyddhau cleifion yn hysbysu cleifion ei bod hi'n bosibl y bydd gofyn iddynt aros yn y lolfa ryddhau o tua 10am ymlaen ar y diwrnod rhyddhau. Gall tair lolfa ryddhau, fodd bynnag, dderbyn cleifion o 8.30am ymlaen. Ers ein gwaith archwilio, mae'r Bwrdd Iechyd wedi diwygio'r fersiwn electronig o'r pamffled/taflen wybodaeth er mwyn hysbysu cleifion fod y lolfeydd rhyddhau ar gael o 8.30am ymlaen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu diweddaru'r fersiwn brintiedig yn ei gylch argraffu nesaf.


60 Mae capasiti pob lolfa o ran nifer y cleifion y gellir eu cynnwys yn amrywio rhwng pedwar ym Mronglais, naw yn Llwynhelyg, deg yn Ysbyty'r Tywysog Philip a 12 yng Nglangwili. Mae'r niferoedd hyn yn cynnwys cefnogaeth i un i ddau o gleifion y mae angen iddynt aros yn eu gwely tra bônt yn aros i gael eu rhyddhau. Mae canllawiau wedi'u sefydlu ar gyfer pob lolfa ryddhau sy'n disgrifio cwmpas gwaith y lolfa, y rolau a'r cyfrifoldebau cysylltiedig a'r meini prawf ar gyfer derbyn neu wrthod cleifion i'r lolfa. Nodir yn y canllawiau hefyd y dylid trosglwyddo cleifion i'r lolfa ryddhau erbyn 11am os ydynt yn disgwyl am drafnidiaeth.

61 Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch trefniadau staffio, costau a gweithgarwch y lolfeydd rhyddhau. Roedd yr wybodaeth gan gyrff y GIG yn fwy cyflawn na gwybodaeth y timau cyswllt rhyddhau. Mae nifer y staff a ddefnyddir ar draws lolfeydd rhyddhau ysbytai yn amrywio rhwng llai nag un aelod staff CALl a phum aelod staff CALl; y cyfartaledd oedd tri aelod staff CALl. Cyfanswm cost 12 o'r 14 o lolfeydd rhyddhau oedd £1 miliwn, ac roedd costau gwasanaethau unigol yn amrywio rhwng £25,000 a £139,000. £86,000 oedd y gost gyfartalog fesul lolfa ryddhau.

62 Yn Nangosyn 9, gwelir bod y gost am bob claf a ryddhawyd, ac a gefnogwyd drwy'r lolfa ryddhau, yn amrywio rhwng £12 a £74 fesul achos o ryddhau. Nid oes gennym wybodaeth lawn ar gyfer tair o lolfeydd rhyddhau'r Bwrdd Iechyd, ac ni allwn ddarparu gwybodaeth gymharol. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer Ysbyty Glangwili, £12 oedd y gost fesul claf a ryddhawyd, o gymharu â chyfartaledd o £40 ar gyfer lolfeydd rhyddhau.

Dangosyn 9: cymhariaeth o'r gost am bob claf a ryddhawyd ac a reolwyd drwy lolfeydd rhyddhau ysbytai ledled Cymru rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016.

Dengys y siart fod y gost am bob claf a ryddhawyd, ac a reolwyd drwy lolfeydd rhyddhau mewn ysbytai ledled Cymru, yn amrywio rhwng £12 a £74 fesul achos o ryddhau.





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am lolfeydd rhyddhau ysbyty, 2017[13].

63 Unwaith eto, buom yn cymharu nifer y cleifion a gafodd eu rhyddhau, ac a gefnogwyd drwy'r lolfeydd rhyddhau, â nifer yr aelodau staff CALl. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan wyth o'r 14 o lolfeydd rhyddhau, roedd nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff CALl yn amrywio rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016, o ychydig llai na 400 fesul aelod staff CALl hyd at ychydig dros 2,000 fesul aelod staff CALl. Mae gennym wybodaeth ar gyfer dwy o'r pedair lolfa ryddhau o fewn y Bwrdd Iechyd, sy'n dangos bod y lolfa ryddhau yng Nglangwili wedi rheoli mwy o achosion rhyddhau (1,300 fesul aelod staff CALl) na'r cyfartaledd ar gyfer lolfeydd rhyddhau (1,086 fesul aelod staff CALl), tra bod Ysbyty'r Tywysog Philip wedi rheoli llai o'r achosion hynny (734 fesul aelod staff CALl) (Dangosyn 10).

[13] Cawsom wybodaeth oddi wrth 14 o lolfeydd rhyddhau, ond dim ond 8 ffurflen a ddychwelwyd oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i gymharu'r gost fesul claf a ryddhawyd o'r lolfa ryddhau.

Dangosyn 10: nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn (CALl), ac a gefnogwyd drwy lolfeydd rhyddhau ysbyty yng Nghymru rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016

Mae'r siart yn dangos bod nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn yn amrywio ar draws lolfeydd rhyddhau ysbyty yng Nghymru, o ychydig llai na 400 fesul aelod staff CALl hyd at ychydig dros 2,000 fesul aelod staff CALl.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am lolfeydd rhyddhau ysbyty, 2017 (Gweler Troednodyn 12).

64 Buom hefyd yn cymharu nifer y cleifion a gefnogwyd bob dydd drwy'r lolfeydd rhyddhau yn Ysbyty'r Tywysog Philip a Glangwili rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016. Ar gyfartaledd, cefnogwyd chwe chlaf bob dydd yn lolfa ryddhau Ysbyty'r Tywysog Philip a 10 claf bob dydd yn lolfa ryddhau Ysbyty Glangwili. Roedd hyn yn llai na'r cyfanswm o ran capasiti, ac yn llai na'r hyn a allai fod yn bosib o ystyried oriau gweithredu'r naill lolfa a'r llall.

65 Wrth ddadansoddi nifer y cleifion a gefnogwyd yn lolfa ryddhau Glangwili ym mis Ebrill 2017, gwelsom fod naw claf yn cael eu cefnogi bob dydd ar gyfartaledd. Symudwyd ychydig dros un o bob pump (22%) o'r cleifion hyn i'r lolfa cyn 10am, a symudwyd dros hanner (55%) ohonynt i'r lolfa rhwng 10am ac 1pm. Dywedwyd wrthym nad oes trefniadau ar hyn o bryd i gasglu gwybodaeth am gyfanswm yr amser a dreulir yn y lolfa ryddhau cyn gadael yr ysbyty. Ni allwn farnu a ellid symud mwy o gleifion i'r lolfa ryddhau neu a yw achosion o oedi yn atal hynny rhag digwydd, ond yn ôl gwybodaeth o'r cynllun treigl 13 wythnos ar gyfer pedwerydd chwarter 2016-17 cyfyngwyd ar y gwasanaeth gan nad oedd porthorion yn gallu trosglwyddo cleifion.

## Mae staff ward yn hyderus ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud i gefnogi proses ryddhau ddiogel ac amserol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o dirlun y gwasanaethau cymunedol. Fodd bynnag, mae'r hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion yn anfynych, ac mae rhai heriau, fel dibyniaeth ar staff asiantaeth, yn peri bod cynllunio i ryddhau cleifion yn fwy anodd

66 At ei gilydd, tîm y ward sy'n gyfrifol am asesu cleifion a chynllunio i'w rhyddhau. Dylai staff y ward gymryd rhan yn y broses cynllunio i ryddhau a'i hystyried yn rhan o'r continwwm gofal, a dylid dwyn staff ward a rheolwyr gweithredol i gyfrif am gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol. Mae angen i'r staff feddu ar ddealltwriaeth dda o bolisïau a llwybrau rhyddhau, mynediad at lefelau priodol o hyfforddiant, a gwybodaeth am yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i'r gymuned er mwyn cefnogi'r broses o ryddhau cleifion.

### Mae'r hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion yn anfynych

67 Dylai staff rheng flaen dderbyn hyfforddiant rheolaidd sy'n briodol i'w rôl yn y broses ryddhau. Dylai'r hyfforddiant hwn fod yn rhan o raglenni ymsefydlu, ac o ddiweddariadau rheolaidd ar bynciau penodol, yn enwedig pan fydd polisïau cysylltiedig yn ddibynnol ar asesu a chynllunio gofal. Yn ddelfrydol, darperir hyfforddiant ar sail aml-asiantaeth ac/neu ar sail aml-broffesiwn er mwyn sicrhau bod cynllunio i ryddhau cleifion yn fusnes i bawb.

68 Yn Nangosyn 11 gwelir mai ond hanner sefydliadau'r GIG ledled Cymru sy'n cynnwys cynlluniau rhyddhau yn rhaglenni ymsefydlu'r nyrsys, ac sydd yn cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd. O fewn y Bwrdd Iechyd, mae cynllunio i ryddhau cleifion yn cael ei gynnwys yn rhan o raglenni ymsefydlu Sir Benfro ar gyfer dechreuwyr newydd ym maes nyrsio, meddygaeth, ffisiotherapi a therapi galwedigaethol. Serch hynny, bydd dros ddwy flynedd yn mynd heibio cyn cynnig hyfforddiant gloywi.

Dangosyn 11: argaeledd hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion ar gyfer staff nyrsio

Dengys y tabl pa sefydliadau yn y GIG sydd yn darparu hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o raglenni ymsefydlu nyrsys, ac a ddarperir hyfforddiant gloywi rheolaidd i'r staff nyrsio.

| Sefydliad y GIG | Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i gynnwys mewn rhaglenni ymsefydlu nyrsys ar gyfer dechreuwyr newydd | Hyfforddiant gloywi ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i ddarparu |
|---|---:|---:|
| Abertawe Bro Morgannwg | Nac oes | Oes |
| Aneurin Bevan | Nac oes | Nac oes |
| (ysbytai) Betsi Cadwaladr | | |
| • Ysbyty Gwynedd | Oes | Oes |
| • Wrecsam Maelor | Oes | Oes |
| • Glan Clwyd | Oes | Nac oes |
| Caerdydd a'r Fro | Nac oes | Oes |
| Cwm Taf | Nac oes | Oes |
| **Hywel Dda (timau sirol)** | | |
| • **Sir Benfro** | **Oes** | **Nac oes** |
| • **Ceredigion** | **Nac oes** | **Nac oes** |
| • **Sir Gaerfyrddin** | **Nac oes** | **Nac oes** |
| Powys | Nac oes | Nac oes |
| Felindre | Oes | Oes |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 7)

69 Nodir yn glir ym Mholisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal y Bwrdd Iechyd y bydd y Bwrdd Iechyd yn 'sicrhau bod yr holl staff rheng flaen yn cael mynediad at hyfforddiant priodol ar reoli'r broses o ryddhau a throsglwyddo cleifion', ac yr ymdrinnir â'r hyfforddiant drwy gyflwyno'r polisi a thrwy gyfleoedd hyfforddi amrywiol, fel rhaglenni hyfforddi ac ymsefydlu mewnol, adnoddau e-ddysgu neu fynediad at y modiwl 'Cynllunio i Ryddhau Cleifion yn Effeithiol' a ddarperir gan Brifysgol Abertawe.

70 Darparwyd hyfforddiant i reolwyr ward wrth roi'r llwybrau rhyddhau ar waith, gyda'r rheolwyr ward yn gyfrifol am raeadru'r hyfforddiant i'w timau.

Mae'r staff ward yn hyderus ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn cefnogi proses ryddhau ddiogel a phrydlon, ond mae hynny'n anodd oherwydd nifer o heriau, fel dibyniaeth ar staff dros dro.

71 Yn ei adolygiad, gwelodd yr Uned Gyflawni ddiwylliant ledled Cymru lle'r oedd pobl yn gyndyn o gymryd risg, lle'r oedd y staff yn siarad yn agored am ddiwylliant 'cwtsh'[14] a'r ffaith nad oedd digon o amser yn cael ei neilltuo i reoli'r broses ryddhau. Yn rhan o'n gwaith archwilio, buom yn cyfarfod â staff nyrsio ward ac aelodau o'r timau cyswllt rhyddhau[15] i siarad am broblemau'n gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion ar lefel y ward.

72 Roedd rheolwyr ward y buom yn ymweld â hwy yn deall eu rôl yn glir, a hefyd yn deall rôl eu tîm, wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Serch hynny, roeddent yn teimlo'n aml nad oedd digon o amser yn cael ei neilltuo i gynllunio i ryddhau cleifion. Dywedwyd wrthym fod y broses o gynllunio i ryddhau'r claf yn cychwyn wrth dderbyn y claf, a bod staff y ward yn ymdrechu i ryddhau cleifion ar y cyfle cyntaf. Mae'n ofynnol i staff y ward lenwi dogfen asesu sawl tudalen o hyd ar gyfer pob claf, gan gynnwys gwybodaeth ar gyfer ei ryddhau. Fodd bynnag, adroddwyd bod llawer o dudalennau'r ddogfen asesu yn cael eu gadael yn wag, yn enwedig o ran gallu'r claf i weithredu fel arfer, a'r modd y mae'n ymdopi gartref. Dywedwyd wrthym hefyd fod asesiadau a gychwynnir gan staff yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys neu mewn unedau asesu yn aml heb eu cwblhau.

73 Ar ben hynny, dywedodd aelodau o'r timau cyswllt rhyddhau cleifion eu bod yn synnu at ddiffyg gwybodaeth ymhlith staff ward ynghylch amgylchiadau cartref arferol cleifion unigol, neu eu llesiant corfforol a meddyliol arferol, wrth fynychu rhawdiau'r bwrdd. Yn rhan o'i gynllun gweithredu blynyddol ar gyfer 2017-18, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i ymwreiddio proses rhawdiau bwrdd gyson o ansawdd uchel drwy ddarparu hyfforddiant parhaus, a ddylai fod o gymorth i ymdrin â rhai o'r problemau hyn.

74 Dywedodd rheolwyr ward wrthym fod angen meithrin hyder staff nyrsio cofrestredig ar lefel is er mwyn iddynt allu cyfrannu'n llawn mewn yng nghyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth. Ar y llaw arall, mae'r staff o'r timau cyswllt rhyddhau cleifion yn teimlo bod angen mwy o hyfforddiant ar broses y pecyn cymorth penderfyniadau ar gyfer cyllid gofal iechyd parhaus, a allai gefnogi prosesau cynllunio i ryddhau cleifion.

75 Oherwydd y nifer fawr o swyddi nyrsio gwag ar draws y Bwrdd Iechyd, dibynnir ar nyrsys asiantaeth nad ydynt yn gyfarwydd â'r prosesau rhyddhau nac argaeledd gwasanaethau cymunedol. Adroddwyd bod rheolwyr ward yn gorfod treulio llawer o amser yn cefnogi staff asiantaeth drwy'r broses neu'n gwneud trefniadau rhyddhau eu hunain.

76 Dywedodd rheolwyr ward a rheolwyr cymunedol wrthym fod niferoedd cynyddol o gleifion ag anghenion cymhleth yn cael eu derbyn i'r ysbyty, sy'n golygu bod pennu nodau realistig gyda chleifion a'u theuluoedd ar gyfer y cefnogaeth fydd ei hangen wrth ryddhau yn gryn her. Cyfeiriodd rheolwyr ward a thimau cyswllt rhyddhau at enghreifftiau lle cafwyd anghydfod o fewn teuluoedd lle nad oedd y teuluoedd yn parchu dewis y claf.

[14] Disgrifiodd yr Uned Gyflawni ddiwylliant cwtsh lle'r oedd rhai aelodau staff yn amharod i ryddhau cleifion i'w cartrefi eu hunain, oherwydd eu bod yn tybio y gallai hynny achosi risg i'r cleifion. Er mai caredigrwydd sydd wrth wraidd hyn, mae'n bosib nad yw'r staff yn gweithredu er budd pennaf y cleifion.

[15] Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys prif nyrsys, y pennaeth nyrsio, aelodau o'r timau cyswllt rhyddhau, rheolwyr ardal a rheolwyr y gwasanaeth cymunedol.

77 Cyfeiriodd rheolwyr ward hefyd at nifer o heriau'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion yn brydlon, sydd yn gyson â'r ffactorau a amlygwyd ym mharagraffau 19 i 22. Dyma'r heriau:

- diffyg capasiti i gynnal asesiadau prydlon o fewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol;
- diffyg capasiti o fewn cartrefi gofal a chartrefi nyrsio drwy gydol yr wythnos i asesu cleifion sy'n cael eu paratoi i'w trosglwyddo, neu broblemau staffio a allai olygu na ellir trosglwyddo cleifion ar rai diwrnodiau o'r wythnos.
- dychwelyd cleifion i ysbytai'n nes at adref mewn byrddau iechyd cyfagos, yn enwedig i ysbytai cymunedol lle na cheir darpariaeth feddygol y tu allan i oriau;
- oedi os oes yn rhaid dibynnu ar weithwyr cymdeithasol o ardal wahanol;
- na ellir trosglwyddo cleifion i wasanaethau gofal trydyddol mewn byrddau iechyd cyfagos, gan fod gwelyau'r gwasanaethau hynny'n llawn;
- y gofyniad i ailasesu cleifion sydd eisoes yn derbyn pecynnau gofal, ond sydd yn cael eu derbyn i'r ysbyty am gyfnod hwy na phythefnos, fel bo modd rhoi pecynnau gofal newydd ar waith; ac
- amharodrwydd asiantaethau gofal i dderbyn cleifion newydd ar ddydd Gwener, gan nad ydynt am ddechrau pecyn gofal newydd dros y penwythnos.

## Ceir dealltwriaeth dda o dirlun y gwasanaethau sylfaenol a chymunedol sy'n cefnogi cleifion wrth eu rhyddhau.

78 Mae cael dealltwriaeth dda o ystod a chapasiti gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol yn elfen bwysig wrth sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n brydlon. Dylai cyrff iechyd ddal gwybodaeth gyfredol am y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael a all helpu cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Gall y gwasanaethau hyn fod ar gael drwy sefydliadau'r GIG, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector.

79 Gofynnwyd i gyrff iechyd pa fathau o wybodaeth yr oeddent yn ei chasglu am wasanaethau cymunedol. Yn Nangosyn 12 gwelir mai ychydig o sefydliadau sy'n casglu gwybodaeth am wasanaethau cymunedol a ddarperir gan sefydliadau eraill y GIG ac opsiynau tai. Mae'r nifer sy'n casglu gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesu anghenion ac amseroedd aros cyn i wasanaethau gychwyn hefyd yn gymharol brin, Cesglir gwybodaeth am wasanaethau cymunedol â llaw ac yn electronig o fewn y Bwrdd Iechyd, a bydd gwybodaeth am argaeledd fel arfer ar gael bob wythnos.

Dangosyn 12: nifer y cyrff iechyd a adroddodd eu bod yn casglu ystod o wybodaeth am wasanaethau cymunedol

Mae'r tabl yn dangos faint o gyrff iechyd sy'n casglu ystod o wybodaeth am wasanaethau cymunedol.

| | Ystod y gwasanaethau | Argaeledd gwasanaethau | Meini Prawf Cymhwystra | Y broses atgyfeirio | Amser aros ar gyfer asesiad anghenion | Amser aros i wasanaethau gychwyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau cymunedol y Bwrdd Iechyd ei hun | 8 | 8 | 9 | 9 | 4 | 4 |
| Gwasanaethau cymunedol a ddarperir gan gyrff eraill y GIG | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 |
| Gwasanaethau gofal cymdeithasol | 9 | 9 | 9 | 10 | 6 | 3 |
| Y Trydydd Sector | 10 | 8 | 10 | 8 | 3 | 2 |
| Opsiynau tai | 4 | 2 | 4 | 6 | 2 | 2 |
| Y Sector annibynnol ee gwelyau mewn cartrefi gofal | 7 | 6 | 9 | 9 | 2 | 2 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 7).

80 Yn ôl y rheolwyr cymunedol, mae'r wybodaeth am gapasiti'r gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys gwelyau ysbytai cymunedol, fel arfer yn cael ei chasglu â llaw a'i chynnwys ar daenlen Excel a anfonir bob bore at y Cyfarwyddwyr Sirol. Caiff dangosfwrdd dyddiol sy'n defnyddio'r system goleuadau traffig CAG hefyd ei lunio i ddangos gallu'r gwasanaethau cymunedol, fel y gwasanaethau ailalluogi, gofal cymdeithasol, y timau ymateb acíwt a'r cyd-storfeydd cyfarpar i ymateb i atgyfeiriadau asesu. Ni chafodd capasiti'r gwasanaethau nyrsio ardal ei gynnwys hyd yn ddiweddar, oherwydd ystyriwyd y gallai'r llwyth achosion ehangu. Mae adroddiadau diweddar, fodd bynnag, wedi dechrau bwrw goleuni ar faint y llwyth achosion. Cesglir gwybodaeth am argaeledd gwelyau mewn cartrefi nyrsio a chartrefi preswyl yn wythnosol. Rhennir yr wybodaeth hon hefyd â thimau cyswllt rhyddhau cleifion a rheolwyr ysbyty i'w hysbysu am y capasiti yn y gymuned ar gyfer rhyddhau cleifion.

81 Adroddodd staff ward hefyd eu bod gan amlaf yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned, er nad oedd cyfeiriadur ffurfiol ar gael. Fodd bynnag, roedd staff ward yn llai hyddysg ynghylch capasiti gwasanaethau cymunedol i gefnogi cleifion ar ôl eu rhyddhau, a mynegwyd pryder nad oedd capasiti digonol yng ngwasanaethau cymunedol y Bwrdd Iechyd bob amser. Os byddant yn ansicr ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael, dywedodd staff ward wrthym y byddant yn cysylltu â'r timau cyswllt rhyddhau cleifion. Tybir bod yr wybodaeth gan y timau hynny gan eu bod yn rhan o'r

gwasanaeth cymunedol ehangach, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn sy'n bosib o ran rhoi cymorth i gleifion. Mae timau cyswllt rhyddhau cleifion eu hunain yn dweud bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r amrywiaeth o sefydliadau gwirfoddol y gellir cyfeirio cleifion atynt.

# Ceir trefniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, sy'n sicrhau bod aelodau bwrdd yn teimlo'n hyddysg, ond mae'r gwelliannau o ran perfformiad yn rhy araf

## Ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad mewn modd strategol a gweithredol

82 Er mwyn i'r trefniadau fod yn effeithiol, mae angen cael llinellau atebolrwydd clir, a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau ffocws parhaus i wella prosesau rhyddhau a chynnal llif cleifion drwy ysbytai.

83 O fewn y Bwrdd Iechyd, caiff y cyfrifoldebau strategol dros gynllunio i ryddhau cleifion ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau/Dirprwy Brif Weithredwr, ac mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u nodi'n glir yn y Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal. Gweithgor sy'n adrodd wrth y tîm gweithredol yw bwrdd y rhaglen gofal heb ei drefnu. Cadeirir y bwrdd gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau/Dirprwy Brif Weithredwr. Bydd bwrdd y rhaglen gofal heb ei drefnu yn cyfarfod bob mis i graffu ar gynnydd yn erbyn y cynlluniau 13 wythnos, gan ddefnyddio'r cynllun graddio goleuadau traffig i fesur cynnydd yn erbyn camau gweithredu. O safbwynt gweithredol, mae'r Cyfarwyddwyr Sirol a Rheolwyr Cyffredinol yr Ysbytai yn atebol am gyflawni'r cynlluniau hyn, ac am y mesuriadau perfformiad cysylltiedig, ac ar ddiwedd pob cylch o 13 wythnos bydd adroddiad gwerthuso yn cael ei lunio.

84 Mae gan bob rheolwr gweithredol fynediad at gyfres o adroddiadau ar berfformiad sydd ar gael ar system IRIS y Bwrdd Iechyd. Gall y system ddarparu data ar gyfer y system ofal heb ei drefnu, a hefyd ar gyfer y system gofal cynlluniedig. Bob dydd, bob wythnos neu bob mis, mae'r offeryn sicrwydd perfformiad yn casglu amrywiaeth o ddata o IRIS ar gyfer safleoedd penodol, er mwyn cymharu'r cydbwysedd rhwng cleifion a gaiff eu derbyn a'u rhyddhau, er enghraifft, tueddiadau o ran amser derbyn cleifion neu achosion o fethu trothwyon aros mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.

85 Ar bob safle ysbyty, mae nifer o drefniadau ar waith er mwyn craffu ar berfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau dyddiol lefel uwch o'r rhai sydd ar y rhestr o gleifion sy'n feddygol iach i'w rhyddhau, cyfarfodydd OwDG wythnosol rhwng cynrychiolwyr lefel uwch o'r Bwrdd Iechyd ac o awdurdodau lleol perthnasol, a chyfarfodydd llif cleifion wythnosol lle bydd staff gweithredol yn rhoi cyfrif am unrhyw oedi wrth ryddhau cleifion.

## Cyflwynir amrywiaeth o wybodaeth yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion yn rheolaidd gerbron y Bwrdd, ac mae aelodau'r Bwrdd yn teimlo eu bod yn hyddysg yn y maes

86 I ddibenion monitro ac adrodd, mae'n hanfodol cael yr wybodaeth gywir am berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yw'r unig fesuriad cenedlaethol, ar gyfer sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol, felly ceir monitro, adrodd a chraffu rheolaidd ar y mesuriad hwnnw. Nid oes unrhyw fesurau cenedlaethol eraill yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'r wybodaeth am ansawdd ac effeithiolrwydd cynllunio i ryddhau cleifion yn hygyrch.

87 Fodd bynnag, er mwyn deall oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, dylai sefydliadau'r GIG yn ôl arfer da gael cyfres o fesurau perfformiad, gan gynnwys gwybodaeth am brofiadau a chanlyniadau cleifion yn sgil y broses ryddhau. Gall y rhain fod yn gymysgedd o fesurau meddal a chaled.

88 Yn rhan o'n hadolygiad, buom yn edrych ar y math o wybodaeth a gaiff ei fonitro ac a adroddir wrth y Bwrdd neu ei bwyllgorau, yn ogystal â grwpiau gweithredol, ar berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion, a pha mor rwydd y mae cleifion yn llifo drwy'r system ysbytai. Yn Nangosyn 13 gwelir y dangosyddion perfformiad yr adroddir amdanynt yn rheolaidd wrth y Bwrdd drwy'r Adroddiad Perfformiad Integredig.

Dangosyn 13: ystod yr wybodaeth am berfformiad a adroddir gerbron y Bwrdd yn rheolaidd

Mae'r tabl uchod yn dangos yr wybodaeth am berfformiad a oedd yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

| Cynllunio i ryddhau cleifion | Llif cleifion |
|---|---|
| • Nifer yr achosion o OwDG mewn cyfleusterau iechyd meddwl a chyfleusterau iechyd eraill.<br>• Nifer yr achosion o OwDG fesul 10,000 o boblogaeth yr awdurdod lleol ym maes iechyd meddwl (pob oed).<br>• Nifer yr achosion o OwDG fesul 10,000 o boblogaeth yr awdurdod lleol mewn meysydd iechyd eraill (75+ oed). | • Canran y cleifion y gohiriwyd eu triniaeth ar fwy nag un achlysur am resymau nad oeddent yn glinigol, gyda llai nag 8 diwrnod o rybudd, ac a gynhaliwyd wedi hynny o fewn 14 diwrnod calendr neu ar y dyddiad cynharaf a oedd yn gweddu i'r claf.<br>• Canran y cleifion yn aros am 4 awr neu lai yn yr adran damweiniau ac achosion brys.<br>• Nifer y cleifion yn disgwyl am 12 awr neu fwy yn yr adran damweiniau ac achosion brys.<br>• Canran y cleifion yn aros dros awr i gael eu trosglwyddo o'r ambiwlans.<br>• Canran y cleifion yn aros llai na 26 wythnos am driniaeth ddewisol.<br>• Nifer y cleifion yn aros dros 36 wythnos am driniaeth.<br>• Yr hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer derbyniadau meddygol brys. |

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o bapurau a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

89 Ym mis Mawrth 2017, derbyniodd y Bwrdd adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad Hanfodion Gofal a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016. Ychwanegwyd cwestiwn newydd at yr arolwg cleifion er mwyn ceisio cael safbwynt cleifion ynghylch a gawsant eu paratoi'n ddigonol i'w rhyddhau gartref. Ymatebodd naw deg y cant o'r cleifion drwy ddweud bod hynny'n digwydd bob amser neu fel arfer. Yn ogystal â hynny:

- roedd 86% o gofnodion cleifion yn cynnwys tystiolaeth ysgrifenedig o asesiad a chynllun rhyddhau; ac
- roedd 87% o gofnodion cleifion yn cynnwys tystiolaeth ysgrifenedig i ddangos bod teulu neu ofalwr y claf wedi cymryd rhan yn y broses o gynllunio i'w ryddhau.

90 Mae Pwyllgor Cynllunio Busnes a Sicrwydd Perfformiad y Bwrdd hefyd yn derbyn adroddiad tebyg i'r Bwrdd ar Berfformiad Integredig. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ryddhau a llif cleifion, gan gynnwys:

- aildderbyniadau cyn pen 30 diwrnod ar ôl rhyddhau ar gyfer cyfres o gyflyrau cronig;
- canran y marwolaethau cyn pen 30 diwrnod ar ôl derbyn achos brys ar gyfer cyflwr iechyd neu ddigwyddiad iechyd penodol;
- nifer y cleifion mewnol yn Ysbyty Glangwili sydd yn profi arosiadau hir, sef dros 28 diwrnod, a'r diwrnodiau gwely cysylltiedig; a
- gwybodaeth a gasglwyd o ddangosfyrddau'r Cynghorau Sir cydffiniol yn gysylltiedig â chanlyniadau pobl sydd wedi bod drwy gyfnod ailalluogi.

91 Mae Adroddiad Perfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd yn darparu:

- dealltwriaeth dda o'r rhesymau a'r heriau sy'n effeithio ar lif cleifion ar draws safleoedd ysbyty, a’r rhesymau dros OwDG;
- y tueddiadau mewn perfformiad a'r rhesymau dros amrywio mewn perfformiad; a'r
- camau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwella perfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion a'r llwybr gwella a gynllunnir, er enghraifft, drwy adolygu cleifion sy'n profi arosiadau hir gyda chydweithwyr y gwasanaeth cymunedol, neu gynnal adolygiadau pythefnosol o'r holl gleifion mewnol fel bo modd eu dychwelyd i'w hysbyty lleol neu i fwrdd iechyd yr ardal y maent yn preswylio ynddi.

92 Yn rhan o'n gwaith asesu strwythuredig yn 2016, gofynnwyd i aelodau bwrdd ar draws y saith bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG Felindre i ba raddau yr oeddent yn cytuno â sawl datganiad ynghylch llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion. O blith aelodau Bwrdd Hywel Dda a ymatebodd i'n harolwg, gwelsom fod:

- saith o'r 14 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y Bwrdd a'i bwyllgorau'n craffu'n rheolaidd ar effeithiolrwydd gwaith cynllunio i ryddhau cleifion, o gymharu ag ychydig dros hanner ohonynt (56%) ledled Cymru. Dywedodd un aelod bwrdd fod gan y Bwrdd neu ei Bwyllgorau drefniadau craffu rheolaidd, a bod y bwrdd gofal heb ei drefnu yn gyfle i archwilio perfformiad yn fanwl bob mis.
- Roedd 12 o 14 o aelodau bwrdd (85%) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar lif cleifion, o gymharu â'r cyfartaledd o 75% o aelodau bwrdd ledled Cymru.
- Roedd 13 o 14 (93%) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall y rhesymau dros oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai o fewn y sefydliad, o gymharu â'r cyfartaledd o 82% o

aelodau bwrdd ledled Cymru. Fodd bynnag, dywedodd un aelod o'r bwrdd mai 'llawer o drafod ffactorau ac ychydig o newid i'r trefniadau' a gafwyd.

93 Cyn gynted ag y bydd yr ymgyrch gofal heb ei drefnu wedi'i hymwreiddio, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd roi sicrwydd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau fod yr ymgyrch gofal heb ei drefnu wedi creu'r effaith a ddymunir o ran gwella llif cleifion a chanlyniadau i gleifion. Mae Adroddiad Perfformiad Integredig mis Awst 2017 a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Cynllunio Busnes a Sicrwydd Perfformiad yn dangos bod llawer o waith i'w wneud cyn sicrhau'r effaith a fwriadwyd. Nod model llif cleifion SAFER yw rhyddhau traean o gleifion cyn hanner dydd; dengys data ar gyfer Ysbyty Bronglais mai ond 4% a gaiff eu rhyddhau sy'n gadael cyn hanner dydd, gyda 20% yn gadael erbyn 2.30pm.

94 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG hefyd pa wybodaeth y gellid ei chasglu ar eu systemau gweinyddu cleifion. Yn Nangosyn 14 gwelir bod gan systemau gweinyddu cleifion y rhan fwyaf o sefydliadau y gallu i gipio ystod o ddata er mwyn cefnogi gwaith monitroFodd bynnag, llai na hanner ohonynt a all gofnodi a yw proses ryddhau yn gymhleth neu'n syml, a thraean a all gofnodi'r dyddiad pan ddatganwyd bod claf yn feddygol iach; ni all system y Bwrdd Iechyd gipio yr un o'r eitemau hyn.

Dangosyn 14: meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sefydliadau'r GIG yn gysylltiedig â'r broses ryddhau

Mae'r tabl yn dangos mai amrywiaeth gyfyng o ddata y gellir ei chofnodi ar y rhan fwyaf o systemau gweinyddu cleifion y GIG yn gysylltiedig â'r broses ryddhau i gefnogi gwaith monitro gweithredol.

| Meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sydd yn gysylltiedig â'r broses ryddhau | Nifer sefydliadau'r GIG sy'n ymateb yn gadarnhaol |
|---|---|
| Dyddiad rhyddhau disgwyliedig | 12 |
| Dyddiad rhyddhau o'r ysbyty | 12 |
| Amser rhyddhau o'r ysbyty | 12 |
| Cyrchfan ar ôl rhyddhau ee, cartref yr unigolyn, cartref preswyl, cartref gofal ac ati. | 12 |
| Dyddiad datgan bod y claf yn feddygol iach i'w ryddhau | 8 |
| A yw'r achos o ryddhau yn syml neu'n gymhleth | 5 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 7)

95 Roedd cynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal heb ei drefnu yn cynnwys rhestr uchelgeisiol o fesurau perfformiad a fyddai'n galluogi trefniadau mwy cyffredinol i fonitro cydymffurfiaeth â'r polisi rhyddhau cleifion a mentrau gwella. Yn ogystal â'r mesurau arferol ar gyfer OwDG a hyd arhosiad, mae'r dangosyddion a restrir yn y Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal, ond sydd i'w hadrodd mewn modd systematig, yn cynnwys:

- cynyddu canran y wardiau sy'n defnyddio dyddiadau rhyddhau disgwyliedig;
- cynyddu canran y cleifion a chanddynt ddyddiad rhyddhau disgwyliedig cyn pen 24 awr ar ôl cael eu derbyn; yn Ysbyty Glangwili, mae gweithwyr cymorth gofal iechyd wedi cael eu hyfforddi i ddiweddaru system Myrddin y tu allan i oriau pan na fydd cefnogaeth weinyddol ar gael;
- cynyddu canran y cleifion a gaiff eu rhyddhau cyn 11am;
- canran y cleifion a gaiff eu rhyddhau i'w man preswylio arferol; a
- chyflawnder a phrydlondeb llythyrau rhyddhau cleifion.

96 Yn adroddiad diweddaru diweddar y Bwrdd Iechyd ar y cynllun gweithredol blynyddol, nodwyd y byddai fframwaith canlyniadau ar gyfer gofal heb ei drefnu yn cael ei gymeradwyo yn fuan ym mis Medi. Bwriedir i'r fframwaith ddarparu fframwaith rheoli perfformiad 'system gyfan' er mwyn mesur effaith yn yr ardal leol ochr yn ochr â mesurau perfformiad sy'n bodoli eisoes, fel achosion o OwDG, hyd arosiadau ac arosiadau 12 awr mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.

## Mae perfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion yn gwella'n araf, ond mae mwy o waith i'w wneud er mwyn byrhau arosiadau, a'r amser y bydd yn rhaid aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys

97 Cynhaliwyd adolygiad dilynol yr Uned Gyflawni o ofal heb ei drefnu o fewn y Bwrdd Iechyd yn nhymor yr haf 2015. Sefydlwyd rhaglen gofal heb ei drefnu y Bwrdd Iechyd er mwyn ymateb i argymhellion yr Uned Gyflawni ar gyfer gwella llif cleifion drwy fyrhau amseroedd aros mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, lleihau achosion o OwDG a byrhau arosiadau yn yr ysbyty. Gwelir arwyddion o welliant ar draws nifer fach o fesurau perfformiad yn gysylltiedig â rhyddhau cleifion a llif cleifion, ond mae angen gwneud cynnydd cyflymach.

98 Yn Nangosyn 15 gwelir bod cyfanswm yr achosion o OwDG[16] (ac eithrio'r achosion mewn cyfleusterau iechyd meddwl) wedi gostwng 25% o 306 yn 2015-16 i 229 yn 2016-17. Fodd bynnag, mae canran y cleifion a wynebodd oedi o fwy na thair wythnos cyn cael eu rhyddhau neu eu trosglwyddo ar gynnydd.

[16] Yn ogystal â hyn, ar drydydd dydd Mercher y mis, bydd cyfrifiad yn cael ei gynnal o'r cleifion mewnol sydd yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu gofal ond sy'n cael eu hatal rhag gwneud hynny.

Dangosyn 15: newid yn nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl) yn ôl hyd yr oedi rhwng 2015-16 a 2016-17

Mae'r tabl yn dangos bod nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (OwDG) yn gostwng ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ond bod cyfran y cleifion sy'n wynebu mwy na thair wythnos o oedi ar gynnydd.

| Hyd yr oedi | Canran (%) yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (OwDG) | |
|---|---|---|
| | 2015-16 | 2016-17 |
| 0-3 wythnos | 66 | 56 |
| 4-6 wythnos | 21 | 26 |
| 7-12 wythnos | 11 | 14 |
| 13-26 wythnos | 1 | 3 |
| 26+ wythnos | 0 | 0 |
| Cyfanswm yr achosion o OwDG | 306 | 229 |


Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gronfa ddata GIG Cymru ar gyfer oedi wrth drosglwyddo gofal, Medi 2017.

99 Mae Dangosyn 16 yn dangos y duedd o ran nifer yr achosion o OwDG (ac eithrio achosion mewn cyfleusterau iechyd meddwl) ers mis Ebrill 2015. Roedd nifer yr achosion misol o OwDG yn ystod 2016-6 yn amrywio i raddau llai na niferoedd y flwyddyn gynt. Cafwyd gostyngiad yn nifer yr achosion misol o OwDG o 25 yn 2015-16 i 19 yn 2016-17. Gwelir mân amrywio o hyd yn nifer cyfartalog yr achosion misol o OwDG yn chwarter cyntaf 2017-18, ond ym mis Gorffennaf cafwyd cynnydd sydyn mewn niferoedd na welwyd mo'i debyg er dechrau 2016.

100 Rhesymau gofal iechyd oedd i gyfrif am bron i hanner (48%) yr achosion o oedi o fewn y Bwrdd Iechyd yn 2015-16, tra phriodolwyd un o bob tri (32%) i resymau'n ymwneud â gofal cymunedol. Roedd y rhesymau dros oedi wedi'u gwrth-droi erbyn diwedd 2016-17, gyda 33% wedi'u priodoli i resymau gofal iechyd a 42% wedi'u priodoli i resymau'n ymwneud â gofal cymunedol.

Dangosyn 16: tueddiadau oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl) rhwng mis Ebrill 2015 a mis Gorffennaf 2017

Mae'r siart yn dangos y duedd yn nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o fewn y Bwrdd Iechyd. Cafwyd amrywio llai yn ystod 2016-17, ond gwelwyd cynnydd cyflym ym mis Gorffennaf yn ystod 2016-17 na welwyd mo'i debyg ers dros flwyddyn.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gronfa ddata GIG Cymru ar gyfer oedi wrth drosglwyddo gofal, Medi 2017

101 Ni ddylai unrhyw glaf aros dros 12 awr mewn Adran Damweiniau ac Achosion Brys, i gael ei dderbyn, ei drosglwyddo neu ei ryddhau. Os bydd cleifion yn aros am 12 awr neu fwy mewn Adran Damweiniau ac Achosion Brys, mae hynny'n aml yn arwydd o broblemau yn gysylltiedig â llif cleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu sawl her sy'n effeithio ar arosiadau 12 awr, a'r mwyaf o'r rhain yw'r anhawster wrth recriwtio a chadw staff meddygol a nyrsio ar draws ei holl system gofal heb ei drefnu. Yn ogystal â hyn, ceir prinder capasiti o ran gwelyau ysbyty i symud y cleifion hynny sy'n disgwyl cael eu derbyn o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys i ward cleifion mewnol. Disgwylir y bydd datblygiadau sy'n anelu i wella cynllunio i ryddhau cleifion, a'r llwyddiant a gafwyd yn ddiweddar wrth lenwi rhai swyddi gwag, yn helpu i wella perfformiad.


102 Ledled Cymru, cafwyd cynnydd o 5% yn yr ymweliadau ag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys rhwng 2015-16 a 2016-17, ond gostyngiad o 0.4% yn nifer y cleifion a oedd yn disgwyl am 12 awr neu fwy. O fewn y Bwrdd Iechyd, cafwyd cynnydd o 5% yn yr ymweliadau ag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, ond gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y cleifion a oedd yn disgwyl am 12 awr neu fwy (cynnydd o 3%). Mae cyfran y cleifion sy'n disgwyl 12 awr neu fwy yn amrywio ar draws Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys y Bwrdd Iechyd. Yn ystod 2016-17, bu'n rhaid i 1% o gleifion yn aros 12 awr neu fwy ym Mronglais o gymharu â 2% yn Llwynhelyg a 3% yng Nglangwili.

103 Mae Dangosyn 17 yn cymharu cyfran y cleifion sy'n disgwyl am 12 awr neu fwy yn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys y Bwrdd Iechyd â chyfartaledd Cymru (4%). Bu'r perfformiad yn gyson yn waeth na chyfartaledd Cymru ers mis Ebrill 2016, ond gwelir arwyddion o welliant. Dengys

data ar gyfer 2017-18 fod cyfran y cleifion sy'n disgwyl am 12 awr neu fwy yn gostwng ar draws oll Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys y Bwrdd Iechyd, er gwaethaf y cynnydd yng nghyfartaledd yr ymweliadau bob dydd.

Dangosyn 17: cyfran o gleifion y Bwrdd Iechyd yn disgwyl dros 12 awr yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys o gymharu â chyfartaledd Cymru rhwng mis Ebrill 2015 a mis Gorffennaf 2017

Mae'r siart yn cymharu cyfran y cleifion sy'n disgwyl am 12 awr neu fwy yn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda â chyfartaledd Cymru; dros y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd perfformiad salach yn gyson yng Nglangwili.





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Berfformiad yn erbyn y targed amseroedd aros 12 awr fesul ysbyty, Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru, Medi 2017.

104 Disgwylir i gyrff y GIG leihau hyd arosiadau ar gyfer derbyniadau meddygol brys. Mesurir perfformiad ar sail cyfnod treigl o 12 mis (mae'r perfformiad a adroddir yn unrhyw fis felly'n cynrychioli cyfartaledd y 12 mis blaenorol, y hytrach na pherfformiad yn ystod y mis hwnnw) Yn Nangosyn 18 ychydig o newid a welir o fewn y Bwrdd Iechyd o ran cyfartaledd treigl hyd yr arosiadau ar gyfer [17] derbyniadau meddygol brys dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae hyd cyfartalog yr arosiadau yn llawer is na chyfartaledd Cymru.

[17] Mae'r perfformiad a adroddir ar gyfer unrhyw fis unigol yn cynrychioli cyfartaledd y 12 mis blaenorol, yn hytrach na pherfformiad yn ystod y mis hwnnw.

Dangosyn 18: tueddiadau'r hyd arhosiad cyfartalog (diwrnodiau) ar sail cyfnod treigl o 12 mis ar gyfer derbyniadau brys i wardiau meddygol cyfun rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2017

Mae'r siartiau'n dangos mân amrywio yng nghyfartaledd treigl hyd arosiadau ar gyfer derbyniadau meddygol brys i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a ledled Cymru. mae cyfartaledd hyd arosiadau o fewn y Bwrdd Iechyd yn llawer is na chyfartaledd Cymru.





Sylwer nad yw echel Y yn dechrau ar sero.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata effeithlonrwydd GIG Cymru gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Mawrth 2017

105 Yn Nangosyn 19 gwelir y modd y mae hyd arosiadau cyfartalog yn amrywio bob mis, a rhwng gwahanol ysbytai cyffredinol dosbarth y Bwrdd Iechyd, ar gyfer derbyniadau meddygol brys. Mae'r arosiadau cyfartalog yn hwy yng Nglangwili, ond ym mis Gorffennaf 2017 cafwyd yr arhosiad cyfartalog byrraf (7.6 diwrnod) ers mis Ebrill 2016.

Dangosyn 19: y duedd o ran hyd arosiadau cyfartalog ar gyfer derbyniadau meddygol brys yn ysbytai cyffredinol dosbarth y Bwrdd Iechyd

Mae'r siartiau'n dangos y duedd o ran hyd arosiadau cyfartalog ar gyfer derbyniadau meddygol brys ym mhedwar ysbyty cyffredinol dosbarth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.




Sylwer nad yw echel Y yn dechrau ar sero.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiad Perfformiad Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Awst 2017).

# Atodiad 1

## Canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau yn ysbytai acíwt y Bwrdd Iechyd

Dangosyn 20: statws CAG[18] asesiad yr Uned Gyflawni o dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodir yn Passing the Baton[19]

Mae'r tabl yn dangos bod tystiolaeth ysgrifenedig yn gysylltiedig â'r broses rhyddhau cleifion yn amrywio rhwng ysbytai ac yn wael gan amlaf o'i hasesu yn erbyn arferion disgwyliedig.

| Proses ryddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Glangwili | Ysbyty Bronglais | Ysbyty Llwynhelyg | Ysbyty'r Tywysog Philip |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam 1** Yr holl achosion rhyddhau, cyn pen 24 awr ar ôl derbyn cleifion | Nodir a yw'r broses ryddhau yn syml/gymhleth wrth dderbyn i'r ysbyty, neu'n fuan wedyn. | | | | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â'r claf i'w holi sut yr oedd yn ymdopi cyn cael ei dderbyn i'r ysbyty, fel bo modd nodi unrhyw ofynion ar gyfer rhyddhau, a chynllunio ar gyfer hynny, o'r dyddiad derbyn. | | | | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â phrif ofalwr y claf (lle bo'n briodol) er mwyn nodi unrhyw ofynion rhyddhau yn fuan ar ôl derbyn y claf i'r ysbyty. | | | | |
| | Nodir cyflyrau hirdymor wrth dderbyn y claf i'r ysbyty, a sefydlir canfyddiad y claf o'i statws cyfredol. | | | | |
| | Nodir y trefniadau presennol ar gyfer cydgysylltu gofal a chefnogi yn y gymuned. | | | | |

[18] Mae'r system goleuadau traffig CAG (coch, ambr, gwyrdd) yn darparu cod lliw i ddangos lle mae perfformiad yn is na'r optimwm; er enghraifft, byddai gwyrdd yn dangos bod y gweithgareddau a aseswyd yn cael eu cyflawni ym mhob achos.

[19] Gweler Troednodyn 2.

| Proses rhyddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Glangwili | Ysbyty Bronglais | Ysbyty Llwynhelyg | Ysbyty'r Tywysog Philip |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam 1** Yr holl achosion rhyddhau, cyn pen 24 awr ar ôl derbyn cleifion | Darperir gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion a'u teuluoedd ynghylch yr hyn y dylent ei ddisgwyl o'r broses ryddhau, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt hwythau. | | | | |
| **Cam 2** Achosion rhyddhau cymhleth | Cynhelir sgyrsiau buan â darparwyr gwasanaeth presennol er mwyn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg, ac ymdrin â'r materion hynny mewn modd rhagweithiol. | | | | |
| | Nodi'r cydgysylltydd gofal cyfredol. | | | | |
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, bydd y claf a'r gofalwr yn cael manylion cyswllt y gweithiwr proffesiynol a enwebwyd i weithredu fel eu cydgysylltydd gofal. | | | | |
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, trefnir cynhadledd achos gan y Tîm Amlddisgyblaeth i ystyried asesiadau a chytuno ar gynllun rhyddhau gyda'r claf/gofalwr. | | | | |
| **Cam 3** Bob tro wrth ryddhau | Wedi sefydlu amcan o'r dyddiad rhyddhau (ADRh). | | | | |
| | Mae'r ADRh yn ystyriol o gamau acíwt ac adsefydlu, lle bo'n berthnasol. | | Amherthnasol | | |

| Proses rhyddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Glangwili | Ysbyty Bronglais | Ysbyty Llwynhelyg | Ysbyty'r Tywysog Philip |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam 4** Bob tro wrth ryddhau | Cyfathrebir yn glir â'r claf a'i deulu/ofalwyr ynghylch yr ADRh. | | | | |
| | Caiff cynlluniau rhyddhau eu hadolygu'n ddyddiol, ac fe geir tystiolaeth o gamau a gwblhawyd. | | | | |
| | Nodir cyfyngiadau posibl a gweithredir yn eu sgil/cyfeirir y materion hynny i lefel uwch | | | | |
| | Mae'r claf a'i deulu/ofalwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd y cynllun rhyddhau. | | | | |
| Achosion rhyddhau cymhleth | Ystyrir llwybrau amgen yn y gymuned er mwyn hwyluso rhyddhau ynghynt a chynyddu annibyniaeth hyd yr eithaf. | | | | |
| | Ystyrir y model 'rhyddhau/trosglwyddo' i asesu ym mhob achos rhyddhau cymhleth. | | | | |
| | Y cydgysylltydd gofal yn casglu asesiad amserol gan y tîm amlddisgyblaeth. | | | | |
| | Caiff cynllun rhyddhau ei ddylunio'n arbennig gyda'r claf/gofalwr, gan adlewyrchu cryfderau'r claf a'r hyn sydd bwysicaf iddo. | | | | |
| | Ystyrir darpariaeth y trydydd sector lle bo'n briodol. | | | | |
| | Lle bo angen, trefnir cyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaeth mewn modd amserol (ee, i drafod y lleoliad nesaf a phennu cymhwystra Gofal Iechyd Parhaus (GIP)). | | | | |

| Proses rhyddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Glangwili | Ysbyty Bronglais | Ysbyty Llwynhelyg | Ysbyty'r Tywysog Philip |
|---|---|---|---|---|---|
| Achosion rhyddhau cymhleth | Os oes angen lleoliad mewn cartref gofal, rhoddir gwybodaeth glir i'r claf a'r gofalwr am gategori'r cartref gofal y dylent fod yn chwilio amdano | | | Amherthnasol | Amherthnasol |
| | Gwybodaeth am gartrefi gofal yn yr ardal | | | Amherthnasol | Amherthnasol |
| | Gwybodaeth am y Polisi Dewis | | | Amherthnasol | Amherthnasol |
| | Gwybodaeth am sut y gallant gael cymorth i chwilio am gartref addas os oes angen hynny (ee, y trydydd sector) | | | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Cam 5** Bob tro wrth ryddhau | Cwblheir rhestr wirio er mwyn sicrhau bod yr holl agweddau ymarferol yn gysylltiedig â rhyddhau wedi'u hystyried. | | | | |

Ffynhonnell: Uned Gyflawni GIG Cymru, Archwiliad o'r Trefniadau i Ryddhau Cleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, 2015

# Atodiad 2

## Methodoleg archwilio

Cynhaliwyd ein hadolygiad o gynllunio i ryddhau cleifion ledled Cymru rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2017. Nodir manylion ein dull o archwilio isod.

### Dangosyn 21: methodoleg archwilio

Mae'r tabl yn dangos ystod y gweithgareddau a gyflawnwyd yn rhan o'r broses archwilio.

| Dull | Manylion |
|---|---|
| Ffurflen Casglu Data - Cynllunio i Ryddhau Cleifion (Gwybodaeth ar lefel y Bwrdd Iechyd) | Ceisiwyd gwybodaeth ar lefel gorfforaethol ynghylch y graddau y rhennir blaenoriaethau wrth ryddhau cleifion a throsglwyddo gofal; y gwasanaethau neu'r timau sydd ar gael i gefnogi rhyddhau cleifion yn brydlon; tirlun gwasanaethau cymunedol; hyfforddiant i gefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion; rheoli perfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion; a'r graddau y rhennir gwybodaeth am wasanaethau addasu tai â sefydliadau'r GIG. Defnyddiwyd yr wybodaeth a ddychwelwyd i gefnogi'r archwiliad cynllunio i ryddhau cleifion, ac astudiaeth yr Archwilydd Cyffredinol o addasiadau tai.<br>Cwblhaodd a chyflwynodd y Bwrdd Iechyd dair ffurflen ddata, un ar gyfer pob sir. |
| Ffurflen Casglu Data - Lolfa Ryddhau | Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG a oedd yn gweithredu gwasanaethau lolfa ryddhau i ddisgrifio'r gwasanaeth hwnnw. Gofynnwyd am yr wybodaeth ganlynol: oriau gweithredu; proffil staffio; nifer y cleifion sy'n derbyn y ddarpariaeth; a'r amgylchedd i gleifion.<br>Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd bedair ffurflen, un ar gyfer pob ysbyty acíwt. |
| Ffurflen Casglu Data - Tîm Cyswllt Rhyddhau Cleifion. | Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG sôn wrthym am y tîm cyswllt rhyddhau os oedd y timau hynny i'w cael. Gofynnwyd am yr wybodaeth ganlynol: oriau gweithredu; y proffil staffio; costau tîm / gwasanaeth a mathau o weithgareddau.<br>Lle'r oedd sawl tîm cyswllt rhyddhau yn gweithredu, byddai un ffurflen yn cael ei llenwi ar gyfer pob prif ysbyty acíwt os oedd y timau'n gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd. Os oedd y tîm cyswllt rhyddhau cleifion yn gweithredu fel un gwasanaeth integredig, byddai un ffurflen yn cael ei chwblhau.<br>Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd bedair ffurflen gan fod gan bob ysbyty ei wasanaeth cyswllt rhyddhau ei hun. |

| Dull | Manylion |
|---|---|
| Cais am ddogfennau | Buom yn adolygu dogfennau a gynhyrchwyd gan y Bwrdd Iechyd a drafodai strategaethau a chynlluniau ar gyfer rheoli llif cleifion a gofal heb ei drefnu, polisïau'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion, trosglwyddo gofal a 'dewis cartref', llwybrau rhyddhau, cynlluniau gweithredu i wella prosesau cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion ac adroddiadau ar berfformiad, gan gynnwys rhai yn gysylltiedig â phrofiad y claf neu wybodaeth am gwynion a digwyddiadau'n gysylltiedig â phrosesau rhyddhau. Dibynnwyd hefyd ar wybodaeth yn yr adroddiadau a luniwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan bob bwrdd iechyd neu bartneriaeth ranbarthol, a roddai grynodeb o'r defnydd a wnaed o'r Gronfa Gofal integredig, ac effaith y gronfa honno, yn 2015-16. |
| Cyfweliadau | Buom yn cyfweld â nifer o aelodau staff, gan gynnwys:<br>• y Prif Swyddog Gweithredu;<br>• Rheolwyr Cyffredinol yr Ysbyty sy'n gyfrifol am ofal heb ei drefnu;<br>• aelodau o'r holl dimau cyswllt rhyddhau cleifion, gan gynnwys yr arweinwyr a'r rheolwyr gwasanaeth, cydgysylltwyr gofal canolraddol, nyrsys cyswllt rhyddhau cleifion arweinwyr gwasanaethau cymdeithasol ac ati;<br>• Cyfarwyddwr y Sir a Rheolwr y Gwasanaeth Cymunedol;<br>• y Pennaeth Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol (ThG) a'r arweinydd cymunedol ar gyfer gwasanaethau ThG; a<br>• rheolwyr ward o'r pedwar prif ysbyty a Phennaeth Nyrsio. |
| Defnydd o ddata presennol | Defnyddiwyd ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, lle'r oedd hynny'n bosibl, fel gwaith yr Uned Gyflawni o 2016 ar gynllunio i ryddhau cleifion, data o wefan StatsCymru ar gyfer nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, gwelyau ysbyty, staff, derbyniadau, cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy mewn adrannau damweiniau ac achosion brys a hyd arosiadau. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 3

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion

### Dangosyn 22: ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn dangos argymhellion yr adroddiad a'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu eu cymryd i ymdrin â'r rhain.

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | **Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal:** Mae ein hasesiad o'r polisi yn dangos y gellid ei atgyfnerthu y tro nesaf y bydd hi'n bryd ei adolygu. Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys:<br>a. y daflen rhyddhau cleifion;<br>b. y llwybrau rhyddhau cleifion;<br>c. rhestr wirio rhyddhau;<br>d. cyfeiriadau neu ddolenni gwe i'r polisi Dewis Cartref<br>e. gweithdrefnau uwchgyfeirio arferol;<br>f. trefniadau ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau o adrannau damweiniau ac achosion brys/unedau asesu clinigol; a<br>g. rolau a chyfrifoldebau staff ward. | Mae'r polisïau cysylltiedig a'r dogfennau ategol yn datblygu i fod yn rhan annatod o'r gwasanaeth, ac wedi'u lleoli mewn un man.<br>Ceir esboniad clir o rolau a chyfrifoldebau staff ward yn ystod y broses ryddhau.<br>Ceir gofynion clir ynghylch rhyddhau cleifion o Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac o unedau asesu. | Nac ydy | Do | Camau gweithredu a nodwyd:<br>Bydd yr holl argymhellion yn cael eu hystyried wrth adolygu'r polisi y tro nesaf. Bwriedir cynnal yr adolygiad hwnnw erbyn mis Mai 2018. | Mai 2018 | Cyfarwydd wr Cynorthwyo l Nyrsio Gweithredol ac Ansawdd - Gwasanaet hau Acíwt |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A2 | **Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal:** Un o'r dangosyddion ar gyfer monitro effaith y polisi yw canran y cleifion a gaiff eu rhyddhau cyn 11am, ond asesir llwyddiant yn erbyn y model llif cleifion SAFER ar sail rhyddhau 33% o gleifion o wardiau cleifion mewnol cyn hanner dydd. Dylai'r Bwrdd Iechyd hefyd gadarnhau a oes angen defnyddio'r un amserlen ar gyfer monitro, neu a oes angen amserlen wahanol, ac os oes angen amserlen wahanol, sicrhau'r gallu i fonitro dau ddangosydd ar wahân. | Mae'r staff yn gweithio tuag at yr un terfyn amser wrth ryddhau cleifion.<br>Ceir cysondeb mewn mesuriadau cymharol wrth asesu gwelliannau o ran rhyddhau'n gynharach yn y dydd. | Ydy | Do | Mae'r holl safleoedd acíwt yn gweithredu eu bwndel cleifion SAFER yn rhan o'r camau parhaus y maent yn eu cymryd yn gysylltiedig â gofal heb ei drefnu.<br>Mae'r timau Gwella Gwasanaeth yn cydweithio â thimau lefel ward i sicrhau trefniadau da i gyfathrebu ynghylch SAFER ac i ymwreiddio hynny'n rhan o drefn ddyddiol y ward.<br><br>Bydd yr amseroedd yn y polisi yn cael ei diweddaru y tro nesaf y caiff y polisi ei ailwampio ym mis Mai 2018 (gweler uchod). | Mae'r gwaith wedi dechrau ond disgwylir y bydd wedi'i ymwreiddio'n llawn erbyn haf 2018<br><br>Mai 2018 | Tîm Gwella Gwasanaeth<br><br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio Gweithredol ac Ansawdd - Gwasanaethau Acíwt |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A3 | **Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion:** Yn ôl y Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal, dylai'r holl staff rheng flaen gael mynediad at hyfforddiant priodol. Fodd bynnag, ni cheir hyfforddiant rheolaidd ar gynllunio i ryddhau cleifion, ac ni chaiff ei gynnwys bob amser mewn rhaglenni ymsefydlu. Mae'r staff asiantaeth hefyd yn anghyfarwydd â'r broses rhyddhau cleifion. Yn y cyfamser, teimlai amryw o'r staff fod angen mwy o hyfforddiant ar y Pecyn Cymorth Penderfyniadau ar gyfer y broses ariannu gofal iechyd parhaus, a fyddai ymhen amser yn sail ar gyfer trefniadau cynllunio i ryddhau cleifion. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a. gynnwys cynllunio i ryddhau cleifion yn rhaglenni ymsefydlu'r holl staff fydd yn gwneud trefniadau i ryddhau cleifion;<br>b. cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd ar gynllunio i ryddhau cleifion;<br>c. archwilio cyfleoedd i gynnwys defnyddio'r Pecyn Cymorth Penderfyniadau mewn hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion; a<br>d. darparu canllawiau syml i staff nyrsio banc ac asiantaeth i'w galluogi i gyfrannu'n effeithiol at drefniadau cynllunio i ryddhau cleifion. | Mae gan staff newydd y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol.<br>Caiff polisïau a gweithdrefnau rhyddhau cleifion eu cymhwyso mewn modd cyson.<br>Mae gan y staff wybodaeth gyfredol am brosesau a gweithdrefnau rhyddhau cleifion.<br>Mae staff yn hyderus wrth ddefnyddio'r pecyn cymorth penderfyniadau i gofnodi tystiolaeth o anghenion gofal yr unigolyn mewn perthynas â chyllid gofal iechyd parhaus.<br>Gall staff nyrsio banc ac asiantaeth gyfrannu'n effeithiol at drefniadau cynllunio i ryddhau cleifion. | Ydy | Do | Yn rhan o rhaglen ehangach y Bwrdd Iechyd ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu, mae camau'n cael eu hystyried yn gysylltiedig â phrosesau rhyddhau, gan gynnwys rhyddhau i asesu a phrosesau GIP, a hynny'n bennaf yn rhan o ffrwd waith/elfen 6 'Cyrraedd Adref yn Ddiogel' ond hefyd yn ffrwd waith /elfen 5b 'Gofal Cleifion Mewnol' sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod y broses ryddhau yn dechrau'n fuan ar ôl derbyn y claf. | Wedi'i ymwreiddio'n llawn erbyn mis Tachwedd 2018 | Arweinydd ffrwd waith - 6 Cyrraedd Adref yn Ddiogel |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A3 | **Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion:** Yn ôl y Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal, dylai'r holl staff rheng flaen gael mynediad at hyfforddiant priodol. Fodd bynnag, ni cheir hyfforddiant rheolaidd ar gynllunio i ryddhau cleifion, ac ni chaiff ei gynnwys bob amser mewn rhaglenni ymsefydlu. Mae'r staff asiantaeth hefyd yn anghyfarwydd â'r broses rhyddhau cleifion. Yn y cyfamser, teimlai amryw o'r staff fod angen mwy o hyfforddiant ar y Pecyn Cymorth Penderfyniadau ar gyfer y broses ariannu gofal iechyd parhaus, a fyddai ymhen amser yn sail ar gyfer trefniadau cynllunio i ryddhau cleifion. Dylai'r Bwrdd Iechyd:#<br>a. gynnwys cynllunio i ryddhau cleifion yn rhaglenni ymsefydlu'r holl staff fydd yn gwneud trefniadau i ryddhau cleifion;<br>b. cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd ar gynllunio i ryddhau cleifion;<br>c. archwilio cyfleoedd i gynnwys defnyddio'r Pecyn Cymorth Penderfyniadau mewn hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion; a<br>d. darparu canllawiau syml i staff nyrsio banc ac asiantaeth i'w galluogi i gyfrannu'n effeithiol at drefniadau cynllunio i ryddhau cleifion. | Mae gan staff newydd y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol.<br>Caiff polisïau a gweithdrefnau rhyddhau cleifion eu cymhwyso mewn modd cyson.<br>Mae gan y staff wybodaeth gyfredol am brosesau a gweithdrefnau rhyddhau cleifion.<br>Mae staff yn hyderus wrth ddefnyddio'r pecyn cymorth penderfyniadau i gofnodi tystiolaeth o anghenion gofal yr unigolyn mewn perthynas â chyllid gofal iechyd parhaus.<br>Gall staff nyrsio banc ac asiantaeth gyfrannu'n effeithiol at drefniadau cynllunio i ryddhau cleifion. | Ydy | Do | Cynhaliwyd gweithdai amlddisgyblaeth i ddatblygu camau allweddol yn sail i'r elfennau hyn, ac wedyn cafodd y camau eu cynnwys mewn ymgynghoriad â staff a rhanddeiliaid eraill. Amlygodd y gweithdai'r ffaith nad cam ar wahân oedd pob elfen, a bod elfennau a gweithredoedd yn gorgyffwrdd y naill â'r llall, a bydd angen myfyrio'n ofalus ar hyn wrth ddatblygu camau'r ffrydiau gwaith.<br>Cytunodd y Bwrdd Gofal Heb ei Drefnu ar y camau lefel uchel ym mis Tachwedd.  Ar y cyd â grŵp amlddisgyblaeth cysylltiedig, bydd arweinydd ffrwd waith glinigol yn datblygu cylch gorchwyl clir, cyflawniadau posibl a graddfeydd amser, a bydd cynllun cysylltiedig ar gyfer gofal heb ei drefnu yn cael ei weithredu. | Wedi'i ymwreiddio 'n llawn erbyn mis Tachwedd 2018 | Arweinydd ffrwd waith - 6 Cyrraedd Adref yn Ddiogel |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (Do/Nad do) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A3 | **Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion:** Yn ôl y Polisi Rhyddhau Cleifion a Throsglwyddo Gofal, dylai'r holl staff rheng flaen gael mynediad at hyfforddiant priodol. Fodd bynnag, ni cheir hyfforddiant rheolaidd ar gynllunio i ryddhau cleifion, ac ni chaiff ei gynnwys bob amser mewn rhaglenni ymsefydlu. Mae'r staff asiantaeth hefyd yn anghyfarwydd â'r broses rhyddhau cleifion. Yn y cyfamser, teimlai amryw o'r staff fod angen mwy o hyfforddiant ar y Pecyn Cymorth Penderfyniadau ar gyfer y broses ariannu gofal iechyd parhaus, a fyddai ymhen amser yn sail ar gyfer trefniadau cynllunio i ryddhau cleifion. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a. gynnwys cynllunio i ryddhau cleifion yn rhaglenni ymsefydlu'r holl staff fydd yn gwneud trefniadau i ryddhau cleifion;<br>b. cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd ar gynllunio i ryddhau cleifion;<br>c. archwilio cyfleoedd i gynnwys defnyddio'r Pecyn Cymorth Penderfyniadau mewn hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion; a<br>d. darparu canllawiau syml i staff nyrsio banc ac asiantaeth i'w galluogi i gyfrannu'n effeithiol at drefniadau cynllunio i ryddhau cleifion. | Mae gan staff newydd y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol.<br>Caiff polisïau a gweithdrefnau rhyddhau cleifion eu cymhwyso mewn modd cyson.<br>Mae gan y staff wybodaeth gyfredol am brosesau a gweithdrefnau rhyddhau cleifion.<br>Mae staff yn hyderus wrth ddefnyddio'r pecyn cymorth penderfyniadau i gofnodi tystiolaeth o anghenion gofal yr unigolyn mewn perthynas â chyllid gofal iechyd parhaus.<br>Gall staff nyrsio banc ac asiantaeth gyfrannu'n effeithiol at drefniadau cynllunio i ryddhau cleifion. | Oes | Oes | Mae prosesau a chomisiynu i gefnogi gweithredu llwybrau Rhyddhau i Asesu wedi'u nodi fel cam.<br>Bydd hyfforddi staff wrth eu hymsefydlu, a hyfforddiant gloywi, yn gam allweddol i'r timau lleol yn rhan o'r gwaith o roi'r llwybr rhyddhau cyfan ar waith a'i ymwreiddio.<br>Ochr yn ochr â'r hyfforddiant, bydd angen ystyried darparu gwybodaeth glir a syml am ryddhau i'r holl staff, er mwyn sicrhau bod unrhyw staff banc ac asiantaeth yn gallu cefnogi'r broses ryddhau yn effeithiol, a bod prosesau rhyddhau yn cael eu cefnogi y tu allan i oriau gwaith arferol. | Wedi'i ymwreiddio'n llawn erbyn mis Tachwedd 2018 | Arweinydd ffrwd waith - 6 Cyrraedd Adref yn Ddiogel |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | **Lolfa ryddhau:** Ymddengys fod lolfeydd rhyddhau yn cefnogi llai o gleifion na'r disgwyl o ystyried eu capasiti cyffredinol a'u horiau gweithredu. Yn y cyfamser, mae rhai cleifion yn gorfod aros dros nos am 12 awr neu fwy mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, nes y bydd gwelyau ar gael. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a. ymroi i annog defnydd o'r lofa ryddhau;<br>b. sicrhau bod cleifion sy'n cael eu rhyddhau yn cael eu symud i'r lolfa ryddhau cyn gynted ag y bydd yn agor;<br>c. canfod yr hyn sy'n atal mwy o gleifion rhag cael eu symud i'r lolfa ar eu diwrnod rhyddhau; a<br>d. chasglu gwybodaeth am ba mor hir y bydd cleifion yn disgwyl yn y lolfa ryddhau cyn gadael yr ysbyty, er mwyn asesu a yw trosiant araf yn atal cleifion rhag cael eu symud i'r lolfa ar eu diwrnod rhyddhau. | Mae'r cynhyrchiant wedi gwella o gymharu â'r adnoddau a fuddsoddir.<br>Drwy gynyddu'r symudiadau drwy'r lolfa ryddhau, bydd modd sicrhau bod gwelyau ar gael ar gyfer derbyniadau newydd mor gynnar ag sy'n bosibl yn ystod y dydd. | Ydy | Do | Yn rhan o raglen ehangach y Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal heb ei drefnu, ymdrinnir â'r camau'n gysylltiedig â chysondeb a'r defnydd o lolfeydd rhyddhau yn ffrwd waith/elfen 5b - Gofal Cleifion Mewnol.<br>Nodwyd yn y gweithdy nad y defnydd o lofeydd rhyddhau yw'r unig agwedd arnynt sy'n amrywio. Nid oes cysondeb ychwaith o ran amgylchedd, oriau agor, lefelau staff ac ati.<br>Fe cam allweddol, dylid cychwyn prosiect i gynyddu potensial lolfeydd rhyddhau ar hyd a lled y Bwrdd Iechyd hyd yr eithaf. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu'n rhan o'r ffrwd waith hon.<br>Bob mis, bydd safleoedd acíwt yn adolygu'r data a gesglir yn gysylltiedig â chleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r lolfeydd rhyddhau, ond proses gasglu â llaw yw hon. | Mae'r gwaith wedi dechrau ond disgwylir y bydd wedi'i ymwreiddio'n llawn erbyn Haf 2018 | Arweinydd ffrwd waith - 5b Gofal Cleifion Mewnol |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | **Lolfa ryddhau:** Ymddengys fod lolfeydd rhyddhau yn cefnogi llai o gleifion na'r disgwyl o ystyried eu capasiti cyffredinol a'u horiau gweithredu. Yn y cyfamser, mae rhai cleifion yn gorfod aros dros nos am 12 awr neu fwy mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, nes y bydd gwelyau ar gael. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a. ymroi i annog defnydd o'r lofa ryddhau;<br>b. sicrhau bod cleifion sy'n cael eu rhyddhau yn cael eu symud i'r lolfa ryddhau cyn gynted ag y bydd yn agor;<br>c. canfod yr hyn sy'n atal mwy o gleifion rhag cael eu symud i'r lolfa ar eu diwrnod rhyddhau; a<br>d. chasglu gwybodaeth am ba mor hir y bydd cleifion yn disgwyl yn y lolfa ryddhau cyn gadael yr ysbyty, er mwyn asesu a yw trosiant araf yn atal cleifion rhag cael eu symud i'r lolfa ar eu diwrnod rhyddhau. | Mae'r cynhyrchiant wedi gwella o gymharu â'r adnoddau a fuddsoddir.<br>Drwy gynyddu'r symudiadau drwy'r lolfa ryddhau, bydd modd sicrhau bod gwelyau ar gael ar gyfer derbyniadau newydd mor gynnar ag sy'n bosibl yn ystod y dydd. | Ydy | Do | Mae angen gwneud gwaith pellach i gytuno ar set ddata gyffredin; mae hyn yn cynnwys hyd yr arhosiad yn y lolfa ryddhau. Bydd y metrig hwn yn rhan o'r ffrwd waith i ddatblygu cyfres ehangach o fetrigau sy'n edrych ar bob elfen o fewn y system gofal heb ei drefnu. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru ac Uned Gyflawni'r GIG i alinio ein gwaith lleol â gwaith cenedlaethol.<br>Bydd ymwreiddio'r bwndel SAFER a gyfer cleifion yn annog defnydd o'r lolfa ryddhau, a hynny mewn modd mwy amserol. | Mae'r gwaith wedi dechrau ond disgwylir y bydd wedi'i ymwreiddio'n llawn erbyn Haf 2018 | Arweinydd ffrwd waith - 5b Gofal Cleifion Mewnol |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A5 | **Adrodd ar berfformiad:** Yn ddiweddar, lansiodd y Bwrdd Iechyd ei ymgyrch gofal heb ei drefnu. Dylai'r bwrdd Iechyd gynnwys crynodeb o effaith yr ymgyrch yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig ym mis Mawrth 2018. | Rhoddir sicrwydd i aelodau'r Bwrdd fod yr ymgyrch gofal heb ei drefnu wedi cyflawni ei nodau. | Nac oes | Do | Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cyfres o fetrigau ar draws holl elfennau'r llwybr ehangach ar gyfer gofal heb ei drefnu, ac rydym yn cydweithio'n agos â chydweithwyr o Lywodraeth Cymru ac Uned Gyflawni'r GIG i sicrhau bod y rhain yn gyson â metrigau sy'n cael eu datblygu'n genedlaethol i gefnogi'r rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal heb ei drefnu, a hefyd ar gyfer y llwybr pobl hŷn integredig.<br>Rhoddir diweddariadau misol i'r bwrdd gofal heb ei drefnu, i'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol ac i'r timau gweithredol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.<br>Bydd crynodeb o effaith y camau wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig ym mis Mawrth 2018. | Mawrth 2018 | Cyfarwyddwr Gweithrediadau |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A6 | **Gwybodaeth ar gyfer monitro perfformiad neu gydymffurfio â safonau:** Nid yw'r system gweinyddu cleifion yn cipio eitemau data a allai gefnogi'r broses o fonitro ac adrodd ar gydymffurfiaeth â safonau a pholisïau rhyddhau cleifion. Dylai'r Bwrdd Iechyd asesu a ellir defnyddio'r system gweinyddu cleifion i gipio eitemau data ychwanegol, fel a yw'r broses ryddhau'n syml neu'n gymhleth ac ar ba ddyddiad y mae claf yn 'feddygol iach' i'w ryddhau. | Ceid llai o ddibyniaeth ar restrau papur. Yn lle hynny gelid cipio ac adrodd ar eitemau data cytunedig yn electronig. | Nac ydy | Do | Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda chydweithwyr gofal cymdeithasol i gipio gwybodaeth gyson am ryddhau cleifion drwy SharePoint yn gysylltiedig â'r cleifion hynny sy'n aros yn yr ysbyty am gyfnod hwy na 7 diwrnod, ac a ystyrir yn gleifion sydd angen cymorth ychwanegol. Cyn gynted y bo'r naill sefydliad a'r llall wedi cytuno ar y fformat, bydd hyn yn cael ei weithredu ar draws y rhanbarth.<br>Mae'r adran wybodaeth yn cynnal adolygiad i weld a oes unrhyw feysydd rhydd yn system gweinyddu cleifion cyfredol Myrddin y gellid eu defnyddio i gofnodi achos rhyddhau fel achos syml/cymhleth, ac a fyddai'n caniatáu rhedeg adroddiadau yn eu herbyn.<br>Ar hyn o bryd, dylid cofnodi natur yr achos rhyddhau yn y dogfennau Hanfodion Gofal; mewn archwiliad arall a gynhaliwyd yn ddiweddar mewn partneriaeth ag Uned Gyflawni'r GIG, nodwyd bod y cofnodion ar gyfer hyn yn parhau i fod yn wael. Bydd camau i wella'r modd y caiff y math o achos rhyddhau ei ddeall, ei adnabod a'i gofnodi yn rhan o'r ffrwd waith - 5b Gofal Cleifion Mewnol. | Haf 2018.<br>Mae'r gwaith wedi dechrau ond disgwylir y bydd wedi'i ymwreiddio'n llawn erbyn Haf 2018 | Pennaeth Gwasanaethau Integredig<br>Arweinydd ffrwd waith - 5b Gofal Cleifion Mewnol |

# Atodiad 4

## Gweithgareddau a gyflawnir gan dimau cyswllt rhyddhau cleifion ledled Cymru

Yn rhan o'r adolygiad hwn, gofynnwyd i'r byrddau iechyd pa mor aml yr oedd eu timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau'n gysylltiedig â chynllunio i ryddhau, gan amrywio rhwng 'bob amser' a 'byth'. Yn Nangosyn 23 gwelir pa mor aml y cyflawnir y gweithgareddau hyn gan y 15 o dimau cyswllt rhyddhau cleifion ledled Cymru.

Dangosyn 23: pa mor aml yr adroddwyd bod timau cyswllt rhyddhau cleifion ledled Cymru yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau

Dengys y tabl hwn pa mor aml y bydd y 15 o dimau cyswllt rhyddhau cleifion ledled Cymru yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau.

| Gweithgareddau cynllunio i ryddhau cleifion | Pa mor aml yr adroddwyd bod timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni'r gweithgareddau a ganlyn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob amser | Yn aml | Weithiau | Yn anaml | Byth |
| Cymryd rhan mewn rhawdiau ward neu gyfarfodydd amlddisgyblaeth | 33% | 40% | 20% | 7% | 0% |
| Cynorthwyo staff i adnabod cleifion bregus a allai wynebu oedi | 53% | 40% | 7% | 0% | 0% |
| Sicrhau bod cynlluniau rhyddhau unigol ar waith i gleifion ag anghenion cymhleth | 60% | 27% | 13% | 0% | 0% |
| Cysylltu â chyrff cyhoeddus eraill i rwyddhau'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac osgoi aildderbyniadau | 60% | 27% | 7% | 7% | 0% |
| Creu man cyswllt canolog ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol | 67% | 33% | 0% | 0% | 0% |

| Gweithgareddau cynllunio i ryddhau cleifion | Pa mor aml yr adroddwyd bod timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni'r gweithgareddau a ganlyn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob amser | Yn aml | Weithiau | Yn anaml | Byth |
| Gweithio gyda rheolwyr gweithredol i ddatblygu mesurau perfformiad ar gyfer rhyddhau cleifion o ysbytai | 27% | 20% | 40% | 7% | 7% |
| Dilysu data ar OwDG | 87% | 7% | 0% | 0% | 7% |
| Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff clinigol ar ryddhau cleifion yn brydlon | 33% | 13% | 40% | 13% | 0% |
| Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i reolwyr gwely ynghylch rhyddhau cleifion | 67% | 20% | 0% | 7% | 7% |
| Darparu cyngor a chymorth ynghylch opsiynau tai i gleifion a'u teuluoedd | 27% | 27% | 20% | 7% | 20% |
| Cyfeirio cleifion a'u teuluoedd i dderbyn cyngor a chefnogaeth er mwyn parhau i fyw'n annibynnol gartref | 33% | 27% | 27% | 7% | 7% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 11).

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales